# RHYBUDD O GYFARFOD


***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Emyr Williams***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***


| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Chwefror 2022 |
| **Amser:** | 10.00 y.b. |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorydd: Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Mary Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorydd: Philip Capper, Wyn Ellis-Jones, Ifor Glyn Lloyd;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru***
*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn.*

# R H A G L E N

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd** **Rhifau Tudalennau**

2. **Diweddariad Corfforaethol**
   Derbyn diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
   Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ac eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.

   Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (trwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.

4. **Datgan Diddordeb**
   Cael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem fusnes.

5. **Cofnodion** **4 - 12**
   Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd a 8fed o Rhagfyr 2021 fel rhai cywir. (Copiiau yma)

6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

7. **Rhybudd o gynnig** **13**
   Ystyried y cynnig canlynol a gyflwynwyd gan Mr. Owain Wyn. (Copi yma)

8. **Taflen Gweithredu** **14 - 18**
   Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma)

9. **Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021** **19 - 24**
   Derbyn yr adroddiad canlynol gan Archwilio Cymru. (Copi yma)

10. **Cyllideb yr Awdurdod a'r Ardollau ar Awdurdodau Cyfansoddol am 2022/2023** **25 - 35**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

11. **Strategaeth Cyfalaf 2022/2023** **36 - 43**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

12. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) 2022/23 – 2025/26** **44 - 51**
    Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

13. **Cydnerthedd Yr Awdurdod: Telerau Ac Amodau Staff** **52 - 74**
    Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)

14. **Adroddiadau Gweithgor yr Aelodau** **75 - 77**
Cyflwyno adroddiad y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2021.
(Copi yma)

15. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**
Cael adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**MERCHER 24 TACHWEDD 2021**

Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Conwy) (Cadeirydd)

***YN BRESENNOL*** :

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
y Cynghorydd Philip Capper;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, Mr. G. Iwan Jones, Mr. Jonathan Cawley, Mr.
Emyr Roberts, Ms. Sian Owen, Mrs. Anwen Gaffey;

**Yn bresennol**
Ms. Sioned Owen, Archwilio Cymru
Mr. Derwyn Owen, Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau**
y Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams; Sarah Hattle.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn amodol i'r Rheoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a bod:
- hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac roedd yr Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
   Croesawodd y Cadeirydd Ms. Sian Owen, Pennaeth Cyllid newydd yr Awdurdod, i'w chyfarfod Awdurdod cyntaf.

2. **Diweddariad Corfforaethol**
   Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-
   (1) roedd cyfarfod rhwng y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd a Chadeiryddion a Phrif Weithredwyr 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal y prynhawn yma.
   (2) roedd hysbyseb diweddar Llywodraeth Cymru wedi denu 22 o geisiadau ar gyfer y ddau le gwag ar yr Awdurdod.

3. **Datgan Budd**
   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

4. **Datganiad Cyfrifon 2020/21**
   Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau:-
   i) derbyn a nodi'r adroddiad "ISA 260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru
   ii) cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ôl-archwilio, ac

iii) awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad, y Datganiad o Cyfrifon a'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol. Dywedodd fod heriau pandemig Covid-19 wedi arwain at gyflwyno'r adroddiad i gyfarfod arbennig o'r Awdurdod heddiw. Darparodd fanylion amrywiol am fân newidiadau nad oedd wedi newid y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr, ac amlinellodd hefyd un addasiad cyfalaf yn y Fantolen, a ddeilliodd o hepgor ymrwymiad cyfalaf o £23k yn ystod y flwyddyn. Yna croesawodd y Prif Swyddog Cyllid Ms. Sioned Owen a Mr. Derwyn Owen o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad.

Cyflwynodd Ms. Sioned Owen, Archwilio Cymru, adroddiad yr Archwiliad o Gyfrifon a rhoddodd wybod am faterion allweddol. Cadarnhaodd y byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad archwilio diamod i'r Awdurdod a diolchodd i dîm cyllid yr Awdurdod am eu cymorth a'u cydweithrediad. Yn codi wedi hynny, cyfeiriwyd yr Aelodau at bara. 19 o'r Adroddiad Archwilio Cyfrifon a oedd yn nodi nad oedd tystiolaeth wedi'i chadw i ddangos bod mudo data ariannol wedi'i gwblhau a'i drosglwyddo'n gywir yn ystod uwchraddio'r serfers. Gwnaethpwyd gwaith pellach a gallai Archwilio Cymru nawr gadarnhau bod y mater wedi ei ddatrys. Gofynnwyd i'r aelodau a'r swyddogion nodi'r angen i gadw cofnodion cywir wrth symud data er mwyn sicrhau, yn y dyfodol, bod yr holl wybodaeth yn cael ei chadw.

Diolchodd y Prif Swyddog Cyllid i Swyddogion Archwilio Cymru am ddod i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad a diolchodd hefyd i Mr. Emyr Roberts am ei waith yn paratoi'r Datganiad Cyfrifon am y tro olaf.

Yn codi wedi hynny, gwnaeth Aelod y sylwadau a ganlyn:-

- croesawu'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod i fynd i'r afael ag anghysondebau yn y datganiadau ariannol a hefyd croesawu'r gostyngiad mewn ffioedd Archwilio.
- cytunodd y Prif Swyddog Cyllid, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Strategaeth Buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd, i drafod y ffordd orau o ddarparu gwybodaeth bellach i'r Aelodau am y strategaeth, ei chyfeiriad, a'r angen cynyddol i fuddsoddi'n gyfrifol, gyda'r Prif Weithredwr.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru a'r tîm Cyllid am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

1. **derbyn a nodi adroddiad "ISA260" a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.**
2. **cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon ôl-archwiliad yr Awdurdod ar gyfer 2020/21.**
3. **awdurdodi'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth.**
4. **bod y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid yn trafod opsiynau ar gyfer rhoi manylion a chyfeiriad Strategaeth Buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd i'r Aelodau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.40**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
**DYDD MERCHER 8 RHAGFYR 2021**

Cynghorydd Wyn Ellis Jones (Conwy) (Cadeirydd)

***PRESENNOL***:

**Aelodau wedi eu penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Judith Humphreys, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams;

**Aelod wedi ei benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
y Cynghorydd Philip Capper;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Mr. Owain Wyn;

**Swyddogion**
E. Williams, Mr. GI Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. Sian Owen, Mr. A. Gaffey.

**Yn bresennol**
Mr. Nick Selwyn, Archwilio Cymru
Euros Lake, Archwilio Cymru

**Ymddiheuriadau**
Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn amodol i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, a / ac:
- bod Hysbysiad o'r Cyfarfod wedi'i gyhoeddi ac mae'r Agenda a'r adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod.
- nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
- bod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cynorthwyo i wirio'r cofnodion a byddai ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**
   (1) croesawodd y Cadeirydd Mr. Nick Selwyn a Mr. Euros Lake o Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno eu hadroddiad.
   2) cynghorodd y Cadeirydd fod Mr Dewi Jones, Warden Gwirfoddol gyda'r Awdurdod ers 50 mlynedd, wedi ymddeol yn ddiweddar a chan na fu cyfle i'r Cadeirydd ddiolch yn ffurfiol i Mr. Jones am ei wasanaeth arbennig, trefnwyd cinio yn Plas Tan y Bwlch ar y 10fed o Ragfyr.
   (3) adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod diweddar rhwng y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymreig a Julie James AS, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd sy'n gyfarwydd â, ac yn gefnogol o, waith y Parciau Cenedlaethol ac roedd y Cadeirydd yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Gweinidog yn y dyfodol.
   (4) adroddodd y Cadeirydd bod rhwng 120 a 130 o gynrychiolwyr wedi mynychu Gweithdy Twristiaeth yn ddiweddar, o dan arweiniad Roland Evans o Gyngor Gwynedd. Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am drefnu'r gweithdai llwyddiannus a fydd yn cynorthwyo i roi gwell dealltwriaeth o broblemau twristiaeth a gobeithio yn helpu i ganfod cydbwysedd rhwng twristiaeth, trigolion lleol, anghenion busnesau lleol ayb.
   (5) adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod yn y dyfodol a drefnwyd gyda Llyr Gruffydd, Aelod Senedd Rhanbarthol Gogledd Cymru.

(6) diolchodd y Cadeirydd i'r trigolion a'r staff a gyfrannodd at y gyfres deledu 'Pobl y Parc' a ddarlledwyd yn ddiweddar ar S4C, ac a ddangosodd Eryri mewn goleuni mor ffafriol.

(7) diolchodd y Cadeirydd hefyd i bawb a fu'n gysylltiedig â'r digwyddiadau a drefnwyd i nodi 70 mlwyddiant yr Awdurdod a oedd wedi bod yn llwyddiant mawr, a chroesawodd y cyfle i gyfarfod o'r diwedd â staff ac aelodau yn bersonol yn dilyn llacio'r cyfyngiadau a osodwyd oherwydd covid.

(8) cyfeiriodd y Cadeirydd gyda thristwch at farwolaeth diweddar Mr. Peter Weston, cyn Aelod Llywodraeth Cymru o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Dywedodd fod llythyr o gydymdeimlad wedi'i anfon at y teulu ar ran yr Awdurdod.

2. **Diweddariad Corfforaethol**

Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar faterion gweithredol:-

(1) dywedodd y Prif Weithredwr fod cyfweliadau ar gyfer swyddi gwag Aelodau Llywodraeth Cymru ar yr Awdurdod wedi'u gohirio tan y Flwyddyn Newydd.

(2) roedd gwaith i ddatblygu gwefan newydd yr Awdurdod yn dal i fynd rhagddo a byddai staff yn profi'r system yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, cyn i'r wefan fynd yn fyw ym mis Mawrth 2022.

(3) roedd cyfarfod diweddar gyda Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn gefnogol i waith y Parciau Cenedlaethol. Amlinellodd y Gweinidog 3 maes strategol lle y dylai swyddogion tri Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru gydweithio, sef adfer natur, datgarboneiddio a chomisiynu ar y cyd. Sicrhawyd swyddogion y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu unrhyw waith a oedd y tu hwnt i'r hyn y disgwylir i'r Parciau Cenedlaethol ei gyflawni ar hyn o bryd.

(4) adroddodd y Prif Weithredwr fod Mrs. Jo Worral, Pennaeth Personél, yn ymddeol o'i swydd ar ddiwedd y flwyddyn. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle, ar ran yr Aelodau, i gyfleu dymuniadau gorau'r Awdurdod i Jo am ymddeoliad hir a hapus. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn dechrau recriwtio ar gyfer Pennaeth Personél newydd yn y Flwyddyn Newydd.

3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Hysbyswyd yr aelodau na dderbyniwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

4. **Datgan Budd**

Datganodd Mr. Emyr Williams fudd yn Eitem 14 ar y Rhaglen ond arhosodd yn y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.
Datganodd Mrs. Anwen Gaffey a Ms. Catrin Williams ddiddordeb yn Eitem 12 ar y Rhaglen ond arhosodd yn y cyfarfod a datganodd Ms. Sian Owen ddiddordeb yn Eitem 12 ar y Rhaglen a gadawodd y cyfarfod tra roedd y mater yn cael ei drafod.

5. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2021 llofnododd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

6. **Materion er Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion**

<u>Eitem Rhif 14 – Partneriaeth Biosffer Dyfi</u>

Cadarnhaodd Mr. Owain Wyn fod copi o gais Partneriaeth Ecodyfi wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, fel y cytunwyd.

7. **Cofnod Gweithredu**
Cyflwynwyd – Cofnod o gamau gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd yr Awdurdod, er gwybodaeth a chamau gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 09.12.20
Eitem Gweithredu 10 – Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2021/22
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.

Cyfarfod Awdurdod 03.02.21
Eitem Gweithredu 2 – Diweddariad Corfforaethol
Roedd y cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau a gellid ei ddileu o'r Cofnod Gweithredu.

**PENDERFYNWYD nodi'r diweddariadau i'r Cofnod Gweithredu.**

8. **Archwiliad o asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o berfformiad 2020-21**
Cyflwynwyd – Archwiliad o asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri o berfformiad 2020-21, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd Mr. Euros Lake, Archwilio Cymru, yr adroddiad Asesiad o Berfformiad 2020-21. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr Awdurdod wedi bodloni'r gofyniad i gyhoeddi'r asesiad cyn 31 Hydref a'i fod wedi bodloni ansawdd yr asesiad o safbwynt y cyhoedd. Hefyd, gan fod y Mesur Llywodraeth Leol bellach wedi'i ddatgymhwyso, byddai Archwilio Cymru yn parhau â'i waith archwilio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

9. **Rheoli'r Trysorlys – Adroddiad Interim 2021/22**
Cyflwynwyd – Adroddiad llafar gan y Prif Swyddog Cyllid, er gwybodaeth.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad llafar ar Reoli'r Trysorlys a chadarnhaodd fod cronfeydd a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiogel a bod cyfraddau llog yn parhau i fod yn isel iawn. Cadarnhaodd y byddai Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2022.

Yn codi wedi hynny, croesawodd y Cadeirydd Ms. Sian Owen, y Pennaeth Cyllid newydd i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.**

10. **Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2022/23**
Cyflwynwyd – Adroddiad y Prif Swyddog Cyllid i'r Aelodau nodi'r Gyllideb Sylfaenol fel y'i hamcangyfrifwyd ar gyfer 202 2/23 a'r sefyllfa gyllido a ragwelir, ac adolygu lefel balansau cyffredinol yr Awdurdod a'r cronfeydd penodol wrth gefn. Ymddiheurodd y Prif Swyddog Cyllid am yr oedi wrth gyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir a dywedodd y byddai'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2022. Nododd yr Aelodau fod y Gweithgor ar 20 Hydref wedi cytuno y byddai'n rhesymol ailystyried y cronfeydd wrth gefn pan fyddai Setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23 yn hysbys.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad a'r gyllideb sylfaenol arfaethedig ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellwyd.**
2. **cymeradwyo lefelau cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.**

11. **Diweddariad ar y Gyllideb 2021/22**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid i hysbysu'r aelodau ynghylch y cyllidebau diwygiedig ar gyfer 2021/22 ac adroddiad ar drosglwyddiadau sylweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r sefyllfa derfynol a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd - Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer saith mis cyntaf y flwyddyn ariannol, a rhoddodd ragor o wybodaeth am y ffigurau manwl. Nododd y Pennaeth Cyllid gywiriad i dabl 3.1 o'r adroddiad a oedd wedi'i anfon ymlaen at yr Aelodau cyn cyfarfod heddiw.

Yn codi wedi hynny, yn dilyn cwestiwn gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu hyd at 10% o'r costau gweinyddol. Atgoffodd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno i newid cyllid prosiectau grant TCLlC i raglen gyfalaf 3 blynedd, fel yr adroddwyd i Weithgor yr Aelodau ar 1 Rhagfyr 2021.

**PENDERFYNWYD**

**1. nodi cynnwys yr adroddiad.**
**2. cadarnhau'r trosglwyddiadau i / o'r cronfeydd wrth gefn fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.2 o'r adroddiad.**
**3. cadarnhau'r golofn 'Trosglwyddiadau Newydd (Trosglwyddiadau)' fel yr amlinellir yn y tabl ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad.**

12. **Cydnerthedd yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau drafod a chytuno ar delerau ac amodau staff ac i awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymgynghori'n ffurfiol ar yr adolygiad o'r bandiau / meingefn cyflog ac adrodd yn ôl i'r Aelodau.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ymgynghori a'r cefndir a dywedodd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror 2022 ar gyfer penderfyniad ffurfiol. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi trafod y posibilrwydd o greu swyddi ar y cyd â Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru i gefnogi'r meysydd cyflawni fel yr amlinellwyd ym mhara. 2.1 o'r adroddiad, ochr yn ochr â'r angen i greu cyflogaeth leol.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r meysydd cyflawni sydd wedi'u nodi ar gyfer cymorth a / neu ddatblygiad pellach, a nodi adnoddau i'r diben hwn o fewn y gyllideb ar gyfer 2022/23.**
2. **cefnogi'r opsiwn o swyddi amser llawn lle bynnag y bo modd wrth gyflawni'r prosiect ac i'r tîm rheoli ystyried hyn fesul achos.**
3. **awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymgynghori'n ffurfiol ar yr adolygiad o'r bandiau / meingefn cyflog ac adrodd yn ôl i'r Aelodau.**

4. **os yw'r bandiau cyflog yn cael eu haddasu a bod aelodau'n cefnogi'r gydnabyddiaeth o fod yn ddwyieithog o fewn y band cyflog, cadw'r pwynt cyflog olaf mewn unrhyw gyflog band i gyrraedd safon gytunedig yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer swyddi newydd a recriwtiaid newydd.**
5. **cefnogi diwrnod ychwanegol o wyliau dewisol i staff ar Ddydd Gŵyl Dewi o 2022 ymlaen. Ar ôl ymgynghori â'r staff, gofyn i Gadeirydd yr Awdurdod ysgrifennu i hysbysu Llywodraeth San Steffan a'r Aelodau Senedd Lleol o benderfyniad yr Awdurdod i fabwysiadu Dydd Gŵyl Dewi fel gwyliau statudol.**

13. **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau ystyried ac enwebu cynrychiolydd a chynrychiolydd wrth gefn o'r Awdurdod i eistedd ar fwrdd y CbC.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid gefndir manwl i'r Aelodau.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- tra'n derbyn y sefyllfa bresennol, mynegodd yr Aelodau rai pryderon.
- Trafododd yr Aelodau yr angen i bob CbC gytuno ar ei ofynion cyllideb a'r gwahanol fecanweithiau ar gyfer hyn gan y bydd angen i'r dyraniad ardoll gael ei dalu gan y Cynghorau Cyfansoddol, a chan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn achos y swyddogaeth cynllunio strategol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid, gan fod Parciau Cenedlaethol Cymru ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, ac yn wahanol i'r Awdurdodau Unedol, nad oedd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn gallu codi incwm ychwanegol o'r dreth gyngor ac ati, mai un dull posibl fyddai seilio hynny ar y nifer o geisiadau cynllunio a broseswyd.
- roedd y Prif Weithredwr yn gwrthwynebu fformiwla o'r fath ar y sail bod y rhan fwyaf o geisiadau o fewn y Parciau Cenedlaethol yn gynlluniau domestig bach gyda pholisïau mewn lle i warchod y Parciau Cenedlaethol rhag datblygiadau diwydiannol mawr. Nododd fod y CbC wedi eu sefydlu i ymdrin â chynlluniau mwy strategol / diwydiannol.
- gofynnodd Aelod a ddylai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol gael eu cynrychioli ar yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth gan fod perygl o gael eu hanwybyddu o dan y strwythur presennol. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhoi pleidlais i gynrychiolwyr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar faterion Cynllunio yn unig, ac mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd canoli rhai elfennau o wasanaethau Trafnidiaeth presennol y Cynghorau. Credai hefyd y byddai mynediad i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth heb bleidlais yn cael ei ganiatáu'n rhwydd gan y CbC pe bai Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn dangos diddordeb.
- dywedodd Aelod mai dim ond 5 mis i ffwrdd oedd Etholiadau Llywodraeth Leol gallai unrhyw benderfyniadau a wneir yn awr gael eu hystyried yn anamserol.
- mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Prif Weithredwr y bydd cynrychiolaeth ar y CbC yn cael eu cadarnhau'n flynyddol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **enwebu Cadeirydd yr Awdurdod i gynrychioli'r Awdurdod ar Fwrdd y CbC gyda'r Is-Gadeirydd wrth gefn.**

14. **Partneriaethau Parciau Cenedlaethol**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Aelodau gadarnhau bod yr Awdurdod yn parhau fel aelod o Bartneriaethau Parciau Cenedlaethol (PPC) a'r Uned Gyfathrebu, i'w ariannu o ymrwymiad gwaelodlin presennol ac unrhyw falans a ariennir o'r cronfeydd wrth gefn.

Adroddwyd – Dywedodd y Prif Weithredwr y bu'n ofynnol iddo ddatgan buddiant yn yr eitem ar y sail ei fod yn aelod o fwrdd PPC ac yn cynrychioli'r tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru ar y Bartneriaeth.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a'r cefndir. Rhoddodd wybod am yr ymrwymiad cyllid sylfaenol presennol a'r angen i glustnodi £10k pellach o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, pe bai'r Aelodau'n cefnogi'r argymhelliad i barhau fel aelodau o Uned Partneriaethau a Chyfathrebu'r Parciau Cenedlaethol am gyfnod pellach o 3 blynedd.

Yn codi wedi hynny, bu'r Aelodau a'r swyddogion yn trafod amrywiol bryderon yn ymwneud â chysylltiadau masnachol a dywedodd y Prif Weithredwr fod rhai ymchwiliadau ar y gweill.

**PENDERFYNWYD**
1. **nodi'r adroddiad.**
2. **awdurdodi'r Awdurdod i barhau fel aelod o Bartneriaethau'r Parciau Cenedlaethol a'r Uned Gyfathrebu am gyfnod pellach o 3 blynedd, wedi'i ariannu o ymrwymiad gwaelodlin presennol a gydag unrhyw falans yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn.**

15. **Proffil Risg yr Awdurdod**
Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol i ddarparu crynodeb blynyddol o Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl iddo.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad, er gwybodaeth.**

16. **Adroddiadau ar y Gweithgor Aelodau**
Cyflwynwyd – Adroddiadau Gweithgorau Aelodau a gynhaliwyd ar 8 Medi a 20 Hydref 2021.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiadau.**

17. **Cyfarfodydd Cyrff eraill**
Cyflwynwyd – Diweddariad llafar ar gyfarfodydd diweddar sefydliadau y bu Aelodau ynddynt fel cynrychiolwyr yr Awdurdod.

<u>Mr. Owain Wyn - Partneriaeth Biosffer Dyfi</u>
- yr oedd wedi mynychu cyfarfod diweddar o Bartneriaeth Biosffer Dyfi, sef yr unig biosffer yng Nghymru. Yn dilyn adolygiad diweddar, dyfarnwyd statws biosffer i'r bartneriaeth am gyfnod pellach o 10 mlynedd. Dywedwyd wrth yr aelodau bod rhai sefydliadau wedi tynnu eu ceisiadau am statws biosffer yn ôl a allai effeithio ar hyfywedd y statws yn y dyfodol.
- mae cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid hirdymor. Cafodd cyfarfod diweddar a drefnwyd gyda Julie James AS ei ganslo oherwydd ymrwymiadau eraill a'r gobaith oedd aildrefnu'r cyfarfod yn fuan.

- Hysbyswyd yr aelodau o nod y biosffer i integreiddio gweithgareddau gyda'r prosiect 'O'r Copa i'r Môr' a phrosiect Leader 'Tyfu Dyfi', sy'n cefnogi ffermwyr gydag amcanion megis ffermio carbon-niwtral, marchnata bwyd lleol a chynlluniau ffermio cynaliadwy ac ati.

Cynghorydd Alwyn Gruffydd – CLILC ac Ynys Ynni

- Nid oedd y Cynghorydd Gruffydd wedi gallu bod yn bresennol yn y ddau gyfarfod diweddaraf o CLILC ac Ynys Ynni oherwydd gwrthdaro â chyfarfodydd eraill yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd a bydd Aelodau'n cael adroddiadau manwl pan fyddant yn cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Aelodau a nodi'r adroddiadau.**

18. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2021 er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion.**

19. **Estyniad i'r Cytundeb Yswiriant**

**Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972: Eithiad rhag datgelu dogfennau.**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod i eithrio'r adroddiad dilynol.

**PENDERFYNWYD eithrio'r adroddiad 'Estyniad i'r Contract Yswiriant' rhag cael ei ddatgelu am y rhesymau a amlinellwyd yn yr adroddiad.**

20. **Estyniad i'r Cytundeb Yswiriant**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid yn gofyn i'r Aelodau argymell estyniad i gytundeb yswiriant presennol yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid yr adroddiad a'r cefndir a rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl iddynt.

**PENDERFYNWYD ffafrio'r opsiwn 2 flynedd a chymeradwyo ymestyn y cytundebau yswiriant presennol am gyfnod hyd at 31 Mawrth 2024.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r staff a'r Aelodau am eu gwaith a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.40**

## Cyfarfod yr Awdurdod 9 Chwefror 2022

21/01/2022

Rhybudd o Gynnig:

"Gan nodi'r cyd-destun canlynol:

- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr amcan llesiant o "*sicrhau Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu*" gan arddel y pum ffordd o weithio i gyflawni hynny.
- Fel rhan o gyflawni'r uchod mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais a thargedau i'r genedl o greu'r amodau economaidd a cymdeithasol a fydd yn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r nifer sy'n siarad Cymraeg o ddydd i ddydd erbyn 2050.
- Mae'r Cynllun Cenedlaethol 2040 *Cymru'r Dyfodol*[1] a Pholisi Cynllunio Cymru (ill dau wedi eu mabwysiadu Chwefror 2021) yn cynnwys deilliant cenedlaethol i greu lleoedd ar draws Cymru lle mae pobl yn byw mewn lleoedd sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu.
- Mae "*cynnal a diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol*" yn rhan greiddiol o'i Raglen Lywodraethu 2021-26 ac fel rhan o hynny mae'r darpar *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*[2] yn ystyried nifer o ymyraethau i gefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg gan gydnabod:
    - fod cymunedau Cymraeg eu hiaith dan bwysau heb ei ail, gan gynnwys effeithiau pandemig COVID-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd;
    - fod gwarchod a hyrwyddo cymunedau Cymraeg o bwysigrwydd cenedlaethol ac yn greiddiol i lwyddiant adfywiad ieithyddol y genedl;
    - yr angen i wella cynllunio ieithyddol ar lefel lleol;
    - yr angen i gydweithio'n well ar draws llywodraeth a hynny ar lefel genedlaethol a lleol.
- Bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gyflwr yr iaith Gymraeg ledled Cymru yn cael eu cyhoeddi yn 2022 a 2023 gan roi gwaelodlin newydd i Eryri o'i gymharu â'r 58% a gofnodwyd yn 2011;
- Wrth gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol. Mae'r iaith Gymraeg yn un o naw o rinweddau arbennig Eryri ac yn ogystal â'i gwarchod mae'n briodol i geisio creu amodau ffafriol iddi ffynnu.

Cynigiaf ein bod yn galw ar yr Awdurdod a'i bartneriaid i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau uchod drwy:

1. Ddatblygu gweledigaeth glir o sut y gall Parc Cenedlaethol Eryri chwarae ei ran yn yr adfywiad ieithyddol cenedlaethol a hynny ar sail adeiladu ein dealltwriaeth o'r sefyllfa yn lleol a'n ymyraethau polisi i greu'r amodau i gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r iaith yn Eryri;
2. Ar yr amser priodol sicrhau fod fersiynau nesaf o dogfennau allweddol yr Awdurdod (y Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Eryri, ein Datganiad Llesiant a'n Strategaeth Hybu'r Gymraeg) yn alinio gyda ac yn rhoi'r gefnogaeth briodol i'r weledigaeth honno."

Mr. Owain Wyn,
Dolawen,
Penygarth,
Caernarfon,
Gwynedd. LL55 1EY
Ionawr 2022

[1] Llywodraeth Cymru (Chwefror 2021) *Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040*
[2] Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2021) *Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg*

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 10.04.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 12. Maniffesto Ieuenctid Europarc | **PENDERFYNWYD sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i wneud gwaith pellach ar hyn ac adrodd yn ôl i'r Awdurdod ym mis Rhagfyr.** | Swyddogion i alw cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen Maniffesto Ieuenctid. | HP/AD | Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen cychwynnol wedi'i gynnal, gyda Grŵp Tasg a Gorffen pellach ym mis Mawrth 2020.<br><br>Disgrifiad swydd ar gyfer Swyddog Ieuenctid yn cael ei baratoi fel rôl ar y cyd rhwng y Pennaeth Wardeiniaid a'r Pennaeth Ymgysylltu. Bydd y swyddog yn arwain ar ddatblygu Maniffesto Ieuenctid lleol.<br><br>Disgrifiad swydd Swyddog Ieuenctid wedi'i gwblhau a'i werthuso. Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, dyddiad cau 10.12.21.<br><br>DIWEDDARIAD: Penodiad wedi ei wneud a bydd y swyddog yn ei swydd yn fuan.<br>**CWBLHAWYD** | **IA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 25.09.2019

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Diweddariad o'r gyllideb | - **adroddiad ar y pwysau cyllidebol a wynebir gan yr Adran Eiddo i'w gyflwyno i Weithgor y dyfodol.** | Cyflwyno'r adroddiadau. | EJ | Diweddariad - Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau ar 4 Mawrth 2020 ac ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu pwysau cyllidebol ac argymhellion i ail-fuddsoddi incwm o safleoedd cynhyrchu incwm mewn cyllidebau cynnal a chadw yn y dyfodol o 2021/22 ymlaen. Adroddiad dilynol i'w baratoi ar gyfer pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn yr Hydref. Nodwyd bod Covid 19 yn risg bosibl ac mae wedi arwain at ohirio'r adroddiad oherwydd pwysau ariannol ehangach yn deillio o'r pandemig.<br>Bu i'r Is-grŵp Asedau gyfarfod ar 15fed Ionawr 2021. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn Ebrill 2022 ac mae penodiad wedi'i wneud i'r swydd Swyddog Eiddo sydd newydd ei chreu. | **NA** |
| | - **adroddiad gan Grŵp Prosiect Yr Ysgwrn i'w gyflwyno i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.** | | NJ | Diweddariad - ar ddiwedd tymor 2021 bydd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn cyflwyno adroddiad i Fwrdd Yr Ysgwrn cyn ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ddiwedd 2021 / dechrau 2022 | |
| | - **rhoi copi o ddyfarniad Aberdyfi i'r Aelodau unwaith y bydd ar gael.** | I e-bostio Aelodau gyda'r dyfarniad. | GIJ | Rhoddwyd copi o'r dyfarniad i'r Aelodau ar 28.11.19.<br>**CWBLHAWYD** | |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 09.12.2020

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7 Taflen Gweithredu | **Cyfarfod yr Awdurdod 10.04.19**<br>**Eitem Weithredu 12 - Maniffesto Ieuenctid Europarc** | Symud ymlaen gyda'r weithred yma fel mater o frys. | HP/AD | (Gweler y diweddariad uchod Awdurdod 10.04.19 - Eitem Rhif 12)<br>DIWEDDARIAD: Penodiad wedi ei wneud a bydd y swyddog yn ei swydd yn fuan. | **NA** |

TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

**CYFARFOD YR AWDURDOD – 13.10.2021**

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 11. **Adroddiad Cynnydd y Panel Craffu - Enwau Lleoedd** | **PENDERFYNWYD**<br>**1. disgwyl cyngor pellach ar yr opsiynau posibl a allai fod yn agored i'r Awdurdod ar sut i fynd i'r afael ag enwau lleoedd sydd â mwy nag 1 enw.**<br>**2. disgwyl adroddiad gan y Panel ar y ffordd orau i'r enwau lleoedd yn Eryri gael eu defnyddio a'u hyrwyddo.**<br>**3. bod y Grŵp Llywio (gyda'r un Aelodaeth) yn disodli'r Panel Craffu i fynd i'r afael â'r unrhyw faterion sy'n ymwneud ag enwau lleoedd a godir yn y dyfodol, ac i estyn gwahoddiad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fynychu'r Grŵp Llywio yn ôl yr angen.** | Cyflwyno adroddiad pellach maes o law. | JC | Bydd cyfarfod nesaf y Panel Craffu Enwau Lleoedd yn cael ei gynnal ddechrau mis Chwefror ac nid ym mis Rhagfyr fel y rhagwelwyd yn flaenorol oherwydd llwyth gwaith trwm Dr Foster-Evans, Prifysgol Caerdydd. | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.12.2021

| RHIF EITEM A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 12. Gwytnwch yr Awdurdod: Telerau ac Amodau Staff | **PENDERFYNWYD**<br>- **y Prif Weithredwr i ymgynghori'n ffurfiol ar yr adolygiad o'r bandiau/colofn gyflog ac adrodd yn ôl i'r Aelodau.** | Cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod nesaf yr Awdurdod. | Prif Weithredwr | Cyflwynir yr adroddiad i'r Awdurdod ar 9 Chwefror 2022. | **IA** |
| | - **ar ôl ymgynghori â'r staff, gofyn i Gadeirydd yr Awdurdod ysgrifennu i hysbysu Llywodraeth San Steffan a'r Aelodau Senedd Lleol o benderfyniad yr Awdurdod i fabwysiadu Dydd Gŵyl Dewi fel gwyliau statudol.** | Ysgrifennu i hysbysu Llywodraeth San Steffan a'r Aelodau Senedd Lleol fel y penderfynwyd. | Cadeirydd | Bydd yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2022. | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.



## Ynglŷn â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae gan yr Awdurdod 18 aelod sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru – 6
- Cyngor Gwynedd – 9
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 3

Gwariodd yr Awdurdod £12.2 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2020-21, yr awdurdod â'r gwariant uchaf o'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru a'r pedwerydd gwariant uchaf o blith yr 13 awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr[1].

[1] Ffynhonnell: Datganiad Cyfrifon 2020-21

**Ffeithiau allweddol**

O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021, roedd gan yr Awdurdod £9.1 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn defnyddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i 75% o wariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, sy'n gynnydd o'i gymharu â 72% yn 2019-20. Mae'r ganran hon yn gwneud yr awdurdod yn gydradd ail uchaf o blith awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod wedi eu clustnodi at ddibenion penodol, sydd yn adlewyrchu ei ddibyniaeth ar brosiectau a ariennir gan grantiau.

Gan ystyried incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy bellach yn 164% o gost net gwasanaethau'r Awdurdod, i lawr o 169% yn 2019-20, a dyma'r ganran uchaf yng Nghymru a Lloegr.

Yn 2020-21, fe grëodd yr Awdurdod £6.7 miliwn o incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, sy'n 57% o gyfanswm ei gyllid cyffredinol, yr uchaf yng Nghymru. 41% yw'r cyfartaledd ar gyfer yr holl awdurdodau yng Nghymru a Lloegr. Mae cyfran yr Awdurdod o ran incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'n gyfwerth â'r lefel uchaf ar gyfer Awdurdod yn Lloegr.

Yn 2020-21, cafodd 57.4% o'r holl geisiadau cynllunio eu penderfynu ar amser. Cafodd 83.5% o'r holl apeliadau cynllunio eu gwrthod, ac ni wnaeth yr aelodau unrhyw benderfyniadau a oedd yn groes i gyngor swyddogion.
Fe ymchwiliwyd i 94.8% o achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod ond roedd yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i wneud gwaith gorfodi cadarnhaol yn 245.3 o ddiwrnodau.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Fe wnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2020-21 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwella'n barhaus**

  Roedd rhaid i'r Awdurdod sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus hefyd, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac roedd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth yr Awdurdod ateb y gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio pa un a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan ddal i gyflawni ein dyletswyddau statudol.

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio. Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu pa un a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

# Yr hyn a ganfuom

## Archwiliad o Gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

### Ar gyfer 2020-21:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol yr Awdurdod yn gywir a theg ar 29 Tachwedd 2021, cyn y terfyn amser statudol.
- Cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth ni am yr Awdurdod.
- Fe wnaed cynnydd o ran gwella ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 27 Gorffennaf 2021. Mae cyfle o hyd ar gyfer gwelliant pellach gan ein bod wedi canfod rhai anghysonderau rhwng y datganiadau ariannol a'r papurau gwaith ategol.
- Fe wnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, gyda'r rhain yn cael eu dwyn i sylw'r Awdurdod yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Tachwedd 2021.
- Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r dystysgrif sy'n cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi cael ei gwblhau.

## Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, fe newidiom ni ddull a ffocws ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrff eraill. Isod ceir crynodeb o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae cryn dipyn ohono'n berthnasol i lywodraeth leol.

Fe gynhaliom ni brosiect i ategu ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu gwersi a ddysgwyd trwy'r pandemig. Nod y prosiect yw ysgogi rhywfaint o feddwl, a chyfnewid ymarfer. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.

Ym mis Mawrth 2021, fe gyhoeddom ni adroddiad cenedlaethol a oedd yn nodi trosolwg o'r cynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o arsylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol yn ystod pandemig COVID-19, ac yna adroddiad ar hynny ym mis Ebrill 2021. Ym mis Mehefin 2021, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad ar gyflwyno rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

## Gwella'n barhaus

Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol ardystio bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau sy'n weddill dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'u harbedwyd gan orchymyn a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Yn 2020-21 fe wnaethom adolygu cydnerthedd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn yr Awdurdod i ddarparu sicrwydd ynghylch pa mor dda yr ymdrinnid â heriau ariannol a heriau o ran capasiti. Ar y cyfan, roedd ein hadroddiad yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi ymateb yn dda i'r pandemig ond bod yr heriau yr oedd yn eu hwynebu wedi amlygu angen i wella'i gydnerthedd a'i gynaliadwyedd yn y tymor hwy.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

## Gwasanaethau dewisol (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi peri i gynghorau ostwng gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Fe wnaethom ganolbwyntio ar sut y mae cynghorau'n diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi'u defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae'r galw am rai gwasanaethau hanfodol yn dal i gynyddu ac nid yw cynghorau'n hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau achub ar y cyfle i adnewyddu, ailgloriannu

ac ailosod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Ebrill 2021.

## Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, fe wnaeth awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i adfywio canol trefi gan greu mannau adwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi blaenorol, disgwyliadau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol bellach yn effeithio'n andwyol ar ganol sawl tref yng Nghymru. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a'r Llywodraeth ganolog, gydag un siop ymhob saith ar strydoedd mawr Cymru bellach yn wag, er bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi ac ysgogi buddsoddiadau gwerth £892.6 miliwn yn y saith mlynedd ddiwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt wastad yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r deilliannau lleol gorau, mae angen i bolisïau a threfniadau cydweithio gael eu halinio a'u hintegreiddio, ac mae angen i adnoddau gael eu blaenoriaethu ar ganol trefi. Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Medi 2021.

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2021-22

Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Y risg a'r mater mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu awdurdodau a'r sector cyhoeddus ehangach o hyd yn ystod 2021-22 yw pandemig COVID-19. Rydym wedi trefnu ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi'r Awdurdod trwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith ar gyfer 2021-22 yn cynnwys adolygiad o'r modd y mae'r Awdurdod yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodir gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 9 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **CYLLIDEB YR AWDURDOD A'R ARDOLLAU AR AWDURDODAU CYFANSODDOL AM 2022/23** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r gyllideb refeniw a chyfalaf 2022/23 a'r ardollau ar awdurdodau cyfansoddol ar sail ffigwr dyraniad grant drafft Llywodraeth Cymru i'r Awdurdod. |

## 1. Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion cyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y setliad Grant Parc Cenedlaethol drafft ar gyfer 2022/23. Bydd y setliad grant terfynol yn cael ei gadarnhau ym Mawrth 2022, felly mae posibilrwydd o newid yn y cyfamser.

1.2 Ceir hefyd yn yr adroddiad hwn fanylion yr ardoll a ddosrennir rhwng y ddau awdurdod cyfansoddol, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar sail y ffigwr grant dangosol.

1.3 Mae'r cyllidebau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ar sail cyllideb stond. Hynny yw, lefel gwariant anorfod i barhau gyda'r lefel presennol o wasanaethau yn 2022/23, heb unrhyw ychwanegiadau datblygol.

## 2. Cyllideb Refeniw 2022/23

2.1 Daeth gwybodaeth am y setliad drafft i law yn hwyr yn Rhagfyr 2021, yn nodi (er gwaethaf chwyddiant cynyddol) na fydd unrhyw gynnydd yn lefel grant Llywodraeth Cymru i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2022/23.

2.2 Ers cyflwynwyd Cyllideb Refeniw Sylfaenol 2022/23 i gyfarfod Awdurdod 8 Rhagfyr 2021, mae rhai addasiadau wedi'eu gwneud, a cyflwynir yma'n Atodiad 1 fersiwn ddiwygiedig o'r manylion newid yn y gyllideb a gyflwynwyd yn Rhagfyr.

2.3 Yng nghyd-destun chwyddiant cynyddol, mae posibilrwydd bellach bydd cytundeb tâl Ebrill 2022 cymaint â 4%, felly gweler yn Atodiad 1 fod darpariaeth cyfanswm chwyddiant tâl o £206,467 wedi ei gynnwys yn y gyllideb, (sef graddfa o 4%). Ar amser ysgrifennu'r adroddiad, nid oes eglurder ynglŷn a chytundeb tâl Ebrill 2021 (sy'n debygol o fod cyfwerth â 1.75%), heb sôn am gytundeb tâl Ebrill 2022.

## 3. Dadansoddiad o Gyllideb Refeniw 2022/23

3.1 Ar sail y ffigwr grant drafft , mae Atodiadau 2 a 3 yn cynnwys gwybodaeth am gyllideb yr Awdurdod ar gyfer 2022/23, gan ddadansoddi'r gyllideb refeniw net ar lefel maes gwasanaeth allweddol (Atodiad 2) ac ar sail penawdau goddrychol safonol (Atodiad 3).

3.2 Mae Atodiad 4 yn cynnwys dadansoddiad mwy manwl o'r gyllideb refeniw ar lefel pob adran unigol ym mhob maes gwasanaeth allweddol. Mae'r dadansoddiad a chostau net y gwasanaethau hefyd yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer costau cyfalaf tybiedig.

## 4. Cyllideb Gyfalaf 2022/23

4.1 Amcangyfrifir gwariant cyfalaf gros o £398,620 wedi'i ariannu o grantiau cyfalaf, ynghŷd â chyfraniadau o gyllideb refeniw a chronfeydd yr Awdurdod . (gweler fanylion yn Atodiad 5).

Cyllidir yr £398,620 o :

| | |
|---|---|
| Grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru a dderbyniwyd ymlaen llaw | £104,717 |
| Gwaelodlin a chronfeydd yr Awdurdod | £293,903 |
| | **£398,620** |

## 5. Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn

5.1 Ar adeg ysgifennu'r adroddiad rhagwelir y bydd cyllideb 2022/23 yn cynnwys gwerth £927,219, o gyfraniad net o gronfeydd yr Awdurdod. Y ffigwr yma'n cynnwys gwerth £747,567 o grantiau Llywodraeth Cymru derbyniwyd ymlaen llaw ac a throsglwyddwyd i gronfa wrth gefn. Mae amlinelliad isod, ac mae'r manylion llawn yn Atodiadau 6 a 7**.**

| Mae'r £927,219 uchod yn cynnwys: | £ | £ |
|---|---|---|
| Grantiau Llywodraeth Cymru – refeniw | 184,079 | |
| APCE – refeniw | 407,430 | |
| | | **£701,509** (Atodiad 6) |
| Grantiau Llywodraeth Cymru – cyfalaf | 104,717 | |
| APCE – cyfalaf | 120,993 | **£225,710** (Atodiad 7) |
| | | **£927,219** |

## 6. Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol

6.1 Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Ardollau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) sy'n rhagnodi'r dull gosod ardoll, ac mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r ardollau cyn gellir eu hawlio gan yr awdurdodau cyfansoddol perthnasol.

6.2 Dyfarnir yr ardollau ar sail traean o'r Grant Parc Cenedlaethol a dderbynnir gan Llywodraeth Cymru. Rhennir yr ardoll rhwng yr awdurdodau cyfansoddol yn unol â'r "cyfrannau perthnasol" nodir yn Rheoliad 5 a'r Atodlen i'r Ddeddf uchod.

6.3 Mae'r tabl isod yn dangos dosraniad yr ardoll ar sail y ffigwr grant a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru a'r "cyfrannau perthnasol" o'r Atodlen i'r Ddeddf.

| 2022/23 | **(£)** | Cyfrannau | **(£)** |
|---|---|---|---|
| Grant Llywodraeth | 4,119,789 | | |
| Cyfanswm yr Ardollau | 1,373,262 | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **5,493,051** | | |
| | | | |
| Dosraniad o'r Ardoll : | **Cyngor Gwynedd** | **77.1%** | **1,058,785** |
| | **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | **22.9%** | **314,477** |
| | Cyfanswm | 100% | 1,373,262 |

6.4 Crynhoir sut ariannir y gyllideb o £6,393,278 (gweler atodiadau 2-4) fel a ganlyn-:

| | |
|---|---|
| Grant Llywodraeth | £4,119,789 |
| Cyfanswm yr Ardollau | £1,373,262 |
| Cyfraniad (net) o Gronfeydd Wrth Gefn | £ 927,219 |
| **Cyllideb 2022/23** | **£6,393,278** |

## 7. ARGYMHELLION

**7.1 Cymeradwyo cyllideb refeniw a chyfalaf Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer 2022/23, fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau dilynol.**

**7.2 Cymeradwyo'r ardollau ar yr awdurdodau bilio, fel nodir yn rhan 6.3 uchod.**

| | | | | Atodiad 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | | (£) | (£) |
| | **Cyllideb Derfynol 2021/22** | | | 7,657,409 |
| | | | | |
| | | **Gwrthdroi eitemau 2021/22** | | |
| | | prisiad eiddo | -25,000 | |
| | | arolwg asbestos | -10,000 | |
| | | deunydd tŷ ychwanegol (diheintyddion ac ati) | -5,000 | |
| | | costau lesu cerbydau wardeiniaid tymhorol | -10,000 | |
| | | Addasiad cynlluniau cyfalaf a gyllidir drwy grantiau | -1,227,428 | |
| | | Partneriaeth y Wyddfa (Mynydda Diogel) | -30,000 | |
| | | Mawndiroedd | -45,190 | |
| | | | | -1,352,618 |
| 1 | **Cyllideb Sylfaenol 2021/22** | | | **6,304,791** |
| | | | | |
| 2 | **Newid mewn costau staff** | | | |
| | | Newidiadau gorfodol | | |
| | | Chwyddiant | 206,467 | |
| | | Cynydd cost yswiriant cenedlaethol | 18,500 | |
| | | Cynydd arferol mewn hicyn | 18,998 | |
| | | Newidiadau dewisol | | 243,965 |
| | | Ychwanegu 2 hicyn | 211,572 | |
| | | Newidiadau eraill | 19,983 | |
| | | Cyflogau cronfeydd a chynlluniau grant | | |
| | | Cynlluniau grant | 31,890 | |
| | | Cyflogau wedi eu cyllido o gronfeydd/ tanwariant | 105,447 | |
| | | | | 368,892 |
| 3 | **Newid mewn gwariant** | | | |
| | | **Cynnydd** | | |
| | | Trydan | 10,000 | |
| | | Costau prosesu incwm (Plas Tan y bwlch) | 10,000 | |
| | | Costau glanhau | 10,000 | |
| | | Costau ychwanegol trefniadau newydd ym Mhen y Pass | 55,630 | |
| | | Ardoll CJC | 3,140 | |
| | | | | |
| | | **Gostyngiad** | | |
| | | Car lês Corfforaethol | -3,250 | |
| | | Prynu gwasanaeth i mewn - Cynllunio | -20,940 | |
| | | Rhyddhad 50% trethi annomestig | -23,270 | |
| | | | | |
| | | **Cynlluniau** | | |
| | | Cytundeb Rheolaeth Grid Cenedlaethol | 18,840 | |
| | | Cynllun THI Dolgellau | -1,750 | |
| | | Carneddau | 9,240 | |
| | | Harlech ac Ardudwy | -11,000 | |
| | | | | |
| | | | | 56,640 |
| 4 | **Newid mewn incwm** | | | |
| | | **Cynnydd** | | |
| | | Ffioedd Cynllunio | -30,000 | |
| | | Plas Tan y Bwlch | -17,150 | |
| | | Maes Parcio Pen y Pass | -100,000 | |
| | | Defnydd incwm a dderbyniwyd ymlaen llaw (Awyr Dywyll) | -47,800 | |
| | | LIFE | -5,784 | |
| | | | | |
| | | **Gostyngiad** | | |
| | | Ad-daliad costau am ddefnydd cerbydau fflyd (G52, G50, D10) | 5,200 | |
| | | | | -195,534 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | **Darpariaeth Chwyddiant Cyffredinol** | | 15,000 |
| 6 | **Darpariaeth pwysau Covid un-tro** | | 75,775 |
| 7 | **Grant Parc Cenedlaethol 2021/22** | | |
| | llinell "un tro" refeniw 21/22 (gweddill o'r cynnydd yn y setliad grant) | | -476,251 |
| 8 | **Cyllideb Sylfaenol 2022/23** | | 6,393,278 |
| 9 | **Grant Parc Cenedlaethol ac Ardoll 2022/23** | | -5,493,051 |
| 10 | **Cyfraniad Net o gronfeydd wrth gefn** | | |
| | Carneddau (cronfa arian cyfatebol) | - 32,200 | |
| | Harlech ac Ardudwy (refeniw) - cronfa prosiectau | - 51,560 | |
| | THI Dolgellau | - 120,993 | |
| | Safle Gwe Newydd (refeniw) | - 46,880 | |
| | Swyddog Digital Comms | - 17,558 | |
| | Llwybrau Llesiant (grant refeniw Ll. Cymu) | - 40,000 | |
| | Cynllun Maniffesto Ieuenctid (grant refeniw Ll. Cymru) | - 21,520 | |
| | Coedwigoedd Celtaidd (LIFE) - cronfa arian cyfatebol | - 35,450 | |
| | Coedwigoedd Celtaidd (LIFE) - cronfa arian grant refeniw | - 18,817 | |
| | Ysgwrn(cronfa grantiau refeniw - Ll.Cymru) | - 28,030 | |
| | Ecolegydd (cronfa grantiau refeniw - Ll. Cymru) | - 36,449 | |
| | Ailstrwythuro Wardeiniaid (cronfa prosiectau) | - 31,880 | |
| | Cyflogaeth dros dro Gwas. Cyllid (cronfa risgiau pendol) | - 31,743 | |
| | Cyflogaeth Swyddog Eiddo - cronfa prosiectau | - 44,070 | |
| | Swyddog Partneriaethau'r Wyddfa (cronfa grantiau refeniw) | - 39,230 | |
| | Cost cyflogaeth dros dro Cynllunio (llithriad 2021/22) | - 40,347 | |
| | Cynllun Grid Cenedlaethol | - 110,000 | |
| | Harlech ac Ardudwy (Cyfalaf) | - 24,014 | |
| | Carneddau - Data Lidar | - 15,630 | |
| | Carneddau - Llwybrau | - 65,073 | |
| | Pwysau Covid un-tro (Cronfa Risgiau Penodol) | - 75,775 | |
| | | | - 927,219 |
| 11 | **Gwarged** | | **-26,991** |

Atodiad 2 / Appendix 2

## CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2022/23
## REVENUE BUDGET SUMMARY 2022/23

### PRIF FEYSYDD GWASANAETH / KEY SERVICE AREAS

| *Gwasanaeth / Service :* | Cyllideb Net / Net Budget 2022/23 £ | % |
|---|---|---|
| Cynllunio a'r Dreftadaeth Ddiwylliannol a Rheolaeth Tir/ Planning and Cultural Heritage and Land Management | 2,877,061 | 43.6 |
| Corfforaethol / Corporate | 3,457,181 | 52.4 |
| Balansau, Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions | 259,467 | 3.9 |
| **Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget** | 6,593,709 | 100.0 |
| LLog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | -8,000 | |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure | 398,620 | |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | -591,050 | |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | 6,393,279 | |
| *Daw'r Arian O / Financed by :-* | | |
| Cronfeydd wrth gefn / Reserves (prosiectau/projects) | 927,219 | 14.5 |
| Cronfeydd wrth gefn / Reserves (gwarged / surplus) | -26,991 | |
| **Grant y Parc Cenedlaethol / National Park Grant** | 4,119,789 | 64.4 |
| Dyraniad Lefi Rhwng Cynghorau Lleol / Levy Allocation between Constituent Authorities :- | | |
| **Cyngor Gwynedd Council** | 1,058,785 | 16.6 |
| **Cyngor Conwy Council** | 314,477 | 4.9 |
| | 6,393,279 | 100.4 |

Atodiad 3 / Appendix 3

## CRYNODEB O'R GYLLIDEB REFENIW 2022/23
## REVENUE BUDGET SUMMARY 2022/23

### LEFEL ODDRYCHOL / SUBJECTIVE ANALYSIS

| | Cyllideb / Budget 2022/23 £ | % |
|---|---|---|
| Gweithwyr / Employees | 5,069,105 | 51.0 |
| Tir ag Adeiladau / Premises & Grounds | 1,479,460 | 14.9 |
| Cludiant / Transport | 153,662 | 1.5 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau / Supplies & Services | 2,385,474 | 24.0 |
| Taliadau Cyfalaf / Capital Charges | 591,050 | 5.9 |
| Arian Wrth Gefn a Darpariaethau / Reserves & Provisions | 259,467 | 2.6 |
| **Cyllideb Gros Gwasanaethau / Gross Services Budget** | 9,938,218 | 100.0 |
| Incwm / Income | -3,344,509 | |
| **Cyllideb Net Gwasanaethau / Net Services Budget** | 6,593,709 | |
| LLog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | -8,000 | |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Expenditure | 398,620 | |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | -591,050 | |
| **Cyfanswm Cyllideb Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | 6,393,279 | |

Atodiad 4 / Appendix 4

## CYLLIDEB REFENIW 2022/23
## REVENUE BUDGET 2022/23

| | Costau Gweithwyr a Chostau Rhedeg | Costau Cyfalaf | Cyllideb Gros 2022/23 | Gwerthu, Ffioedd ac Incwm Grant | **Cyllideb Net 2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| | Employee Costs & Running Expenses | Capital Charges | Gross Budget 2022/23 | Sales Fees & Grant Income | **Net Budget 2022/23** |
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| ***Cynllunio a Threftadaeth Diwylliannol a Rheolaeth Tir / Planning and Cultural Heritage and Land Management*** | | | | | |
| Archeoleg / Archaeology | 62,710 | 0 | 62,710 | 0 | **62,710** |
| Treftadaeth Diwylliannol / Cultural Heritage | 73,560 | 0 | 73,560 | 0 | **73,560** |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau / Dolgellau Townscape Heritage scheme | 44,110 | 0 | 44,110 | -21,180 | **22,930** |
| Harlech ac Ardudwy | 51,560 | 0 | 51,560 | 0 | **51,560** |
| Ysgwrn | 105,220 | 45,250 | 150,470 | -60,190 | **90,280** |
| Cynllun Partneriaeth Tirwedd Carnedau - Carneddau Landscape Partnership Scheme | 567,344 | | 567,344 | -535,144 | **32,200** |
| Cynllunio/ Planning | 854,550 | 3,320 | 857,870 | -206,500 | **651,370** |
| Cadwraeth ac Amaethyddiaeth / Conservation and Agriculture | 416,320 | 10,580 | 426,900 | -19,220 | **407,680** |
| Cynllun Rheoli Cynaladwy Mawndiroedd Cymru / Welsh Peatlands Sustainable Management Scheme | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynllun Rheoli Cynaladwy Dalgylch Afon Eden / Eden River Catchment Sustainable Management Scheme | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynllun Rheoli Cynaladwy Uwch Gwyrfai / Uwch Gwyrfai Sustainable Management Scheme | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| LIFE-Coedwigoedd Celtaidd / LIFE - Celtic Rainforests | 1,060,890 | 0 | 1,060,890 | -967,213 | **93,677** |
| RhMMAMG / ERAMMP | 95,262 | 0 | 95,262 | -95,262 | **0** |
| Awyr Dywyll / Dark Skies | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynllun Grid Cenedlaethol (Maentwrog-Dwyrain) / National Grid Scheme (Maentwrog - East) | 110,000 | 0 | 110,000 | 0 | **110,000** |
| Cynllun Grid Cenedlaethol (Maentwrog-Gorllewin) / National Grid Scheme (Maentwrog - West) | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Mynediad i'r Cyhoedd / Public Access | 157,770 | 4,640 | 162,410 | -2,000 | **160,410** |
| Wardeiniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwyr / Wardens, Estate Workers and Volunteers | 1,065,964 | 62,220 | 1,128,184 | -7,500 | **1,120,684** |
| | **4,665,260** | **126,010** | **4,791,270** | **-1,914,209** | **2,877,061** |
| ***Corfforaethol / Corporate*** | | | | | |
| Gweinyddol / Administration | 207,310 | 0 | 207,310 | -300 | **207,010** |
| Cyllid / Finance | 208,530 | 1,250 | 209,780 | 0 | **209,780** |
| Technoleg Gwybodaeth / Information Technology | 317,300 | 24,980 | 342,280 | 0 | **342,280** |
| Cyfreithiol / Legal | 54,510 | 0 | 54,510 | 0 | **54,510** |
| Personel / Personnel | 110,200 | 0 | 110,200 | 0 | **110,200** |
| Cyfiethu / Translation | 102,310 | 1,430 | 103,740 | 0 | **103,740** |
| Pencadlys / Headquarters | 108,620 | 121,690 | 230,310 | -9,000 | **221,310** |
| Cymorth i Aelodau a'r Awdurdod / Members & Authority Support | 200,220 | 0 | 200,220 | 0 | **200,220** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Corfforaethol / Corporate Management | 625,280 | 0 | 625,280 | -18,000 | **607,280** |
| Prosiectau "un tro" | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Plas Tan Y Bwlch | 412,460 | 225,540 | 638,000 | -255,770 | **382,230** |
| Eiddo / Property | 238,731 | 0 | 238,731 | 0 | **238,731** |
| Cyfleusterau Ymwelwyr / Visitor Facilities | 241,600 | 67,280 | 308,880 | -16,160 | **292,720** |
| Meysydd Parcio / Car Parks | 366,420 | 3,090 | 369,510 | -830,020 | **-460,510** |
| Llyn Tegid | 25,810 | 2,030 | 27,840 | -56,120 | **-28,280** |
| Casglu Ysbwriel / Litter Collection | 15,000 | 4,510 | 19,510 | 0 | **19,510** |
| Ymgysylltu / Engagement | 461,720 | 7,300 | 469,020 | -4,130 | **464,890** |
| Prosiect Safle Gwe / Website project | 46,880 | 0 | 46,880 | 0 | **46,880** |
| Maniffesto Ieuenctid / Young People's Manifesto | 21,520 | 0 | 21,520 | 0 | **21,520** |
| Llwybrau Llesiant / Well Being Routes | 40,000 | 0 | 40,000 | 0 | **40,000** |
| Mynydda Diogel / Mountain Safe | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau / Park Management Plan and Partnerships | 258,020 | 0 | 258,020 | 0 | **258,020** |
| Canolfannau Gwybodaeth / Information Centres | 307,310 | 5,940 | 313,250 | -193,110 | **120,140** |
| Traffic a Thrafnidiaeth / Traffic and Transport | 5,000 | 0 | 5,000 | 0 | **5,000** |
| | **4,374,751** | **465,040** | **4,839,791** | **- 1,382,610** | **3,457,181** |

***Balansau, Arian wrth Gefn a Darpariaethau / Balances, Reserves & Provisions***

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Chwyddiant Cyffredinol / General Prices Inflation - Provision | 15,000 | 0 | 15,000 | 0 | **15,000** |
| Darpariaeth Chwyddiant Cyflogau / Payroll Inflation Provision | 244,467 | 0 | 244,467 | 0 | **244,467** |
| | **259,467** | **0** | **259,467** | **0** | **259,467** |
| **Cyfanswm Cyllid Gwasanaethau / . Total Services Budget** | **9,299,478** | **591,050** | **9,890,528** | **- 3,296,819** | **6,593,709** |
| LLog ar Arian Dros Ben / Interest Earned on Surplus Funds | 0 | 0 | 0 | -8,000 | **- 8,000** |
| Cyllido Gwariant Cyfalaf / Financing of Capital Spend | 398,620 | 0 | 398,620 | 0 | **398,620** |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf / Capital Charges Adjustment | 0 | -591,050 | -591,050 | 0 | **- 591,050** |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfrif Refeniw / Total Revenue Account Budget** | **9,698,098** | **0** | **9,698,098** | **- 3,304,819** | **6,393,279** |

**Gwariant Cyfalaf 2022/23** **Atodiad 5**

| Disgrifiad | (£) |
|---|---|
| Cynlluniau Treftadaeth Diwylliannol | 149,490 |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau | 98,073 |
| Mynediad - prosiectau | 10,000 |
| Wardeiniaid - cerbydau | 14,000 |
| Rhaglen Adnewyddu offer Technoleg Gwybodaeth | 22,340 |
| Carneddau - Data Lidar | 15,630 |
| Carneddau - Llwybrau | 65,073 |
| Harlech ac Ardudwy | 24,014 |
| | |
| | **398,620** |

| | Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Refeniw) | | | Atodiad 6 |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Cronfa** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Ysgwrn | Cronfa Arian Cyfatebol | 28,030 | | |
| Coedwigoedd Celtaidd (LIFE) | Cronfa Arian Cyfatebol | 54,267 | | |
| | | | 82,297 | |
| Cyflogaeth dros dro Cynllunio | Llithriad 21/22 | 40,347 | | |
| Swyddog Ymgysylltu (gweithdrefn digidol) | Llithriad 21/22 | 17,558 | | |
| | | | 57,905 | |
| Harlech ac Ardudwy | Cronfa Prosiectau | 51,560 | | |
| Cynllun Tirwedd y Carneddau | Cronfa Prosiectau | 32,200 | | |
| Swyddog Eiddo | Cronfa Prosiectau | 44,070 | | |
| Ailstrwythuro Wardeiniaid | Cronfa Prosiectau | 31,880 | | |
| | Cronfa Prosiectau | | | |
| | | | 159,710 | |
| Ecolegydd | Grantiau Refeniw (Ll. Cymru) | 36,449 | | |
| Maniffesto Ieuenctid | Grantiau Refeniw (Ll. Cymru) | 21,520 | | |
| Llwybrau Llesiant | Grantiau Refeniw (Ll. Cymru) | 40,000 | | |
| Partneriaeth y Wyddfa | Grantiau Refeniw (Ll. Cymru) | 39,230 | | |
| Prosiect Safle Gwe | Grantiau Refeniw (Ll. Cymru) | 46,880 | | |
| Maentwrog) | Grantiau Refeniw (Grid Cenedlaethol) | 110,000 | | |
| | | | 294,079 | |
| Swyddog Cyllid dros dro | Cronfa Risgiau Penodol | 31,743 | | |
| Darpariaeth costau Covid | Cronfa Risgau Penodol | 75,775 | | |
| | | | 107,518 | |
| | **Cyfanswm** | | **701,509** | |

| | Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn (Cyfalaf) | | | Atodiad 7 |
|---|---|---|---|---|
| **Prosiect** | **Cronfa** | **(£)** | **(£)** | |
| Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau | Arian Cyfatebol | 120,993 | | |
| | | | | |
| | | | 120,993 | |
| Harlech ac Ardudwy | Grantiau Cyfalaf Ll. Cymru | 24,014 | | |
| Carneddau (Data Lidar) | Grantiau Cyfalaf Ll. Cymru | 15,630 | | |
| Carneddau (Llwybrau) | Grantiau Cyfalaf Ll. Cymru | 65,073 | | |
| | | | | |
| | | | 104,717 | |
| | | | 0 | |
| | | | **225,710** | |

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD** | 9 Chwefror 2022 |
| **TEITL** | **STRATEGAETH CYFALAF 2022/23** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23 ac argymhellion y Prif Swyddog Cyllid yn gysylltiedig â'r Cod Darbodus. |

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae adroddiad y Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.2 Mae'r Strategaeth yn cwmpasu:-

- Gwariant Cyfalaf a Chyllido,
- Rheolaeth Trysorlys, gan gynnwys statws diddyled,
- Buddsoddiadau ar gyfer Dibenion Gwasanaeth,
- Gweithgareddau Masnachol,
- Rhwymedigaethau,
- Goblygiadau Cyllideb Refeniw, a
- Gwybodaeth a Sgiliau

## 2 GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO

2.1 Gwariant cyfalaf yw ble mae'r Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau a ddefnyddir ar gyfer mwy na blwyddyn. Ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol mae hyn yn cynnwys gwariant ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a grantiau i gyrff eraill sy'n eu galluogi i adnewyddu adeiladau rhestredig. Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, er enghraifft, nid yw asedau sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu ac fe'u dangosir yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yn 2022/23, mae'r Awdurdod yn cynllunio gwariant cyfalaf o £398k fel y crynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miloedd*

| | **2020/21 gwir (£'000)** | **2021/22 rhagolwg (£'000)** | **2022/23 cyllideb (£'000)** | **2023/24 cyllideb (£'000)** | **2024/25 cyllideb (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol (Gwasanaethau Corfforaethol) | 1,139 | 1,584 | *55* | 337 | 36 |
| Cronfa Gyffredinol (Allanol i'r Awdurdod) | 524 | 79 | *343* | 455 | 202 |
| Buddsoddiadau Cyfalaf | 0 | 0 | *0* | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,663** | **1,636** | ***398*** | **792** | **238** |

2.3 Disgwylir y bydd oddeutu £1m o arian Tiroedd Cynaladwy, Lleoedd Cynaladwy (T.C.Ll.C) yn cael ei ddyrannu gan Llywodraeth Cymru i'r awdurdod yn 2022/23. Nid yw manylion prosiectau i law ar amser ysgrifennu'r adroddiad, ac felly heb eu cynnwys yn y ffigyrau cyllideb yn y tablau.

O Ebrill 2022 ymlaen mi fydd newid yn y ffordd byddwn yn ymdrin a prydlesau, mi all hyn gael effaith ar y ffigyrau uchod. Newid o safbwynt cyfrifyddu fydd hyn, ac ni fydd yn adlewyrchu gwariant ariannol. Nid yw'r ffigyrau i law ar amser ysgrifennu yr adroddiad.

2.4 **Llywodraethu**: Mae'r dyraniad o'r gyllideb refeniw flynyddol yn sefyll, ac yn arfer yn cael ei ategu gan gyllidebau sydd heb eu gwario a gariwyd drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol.

2.5 Rhaid ariannu'r holl wariant cyfalaf, naill ai o –

- ffynonellau allanol (grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill),
- adnoddau'r Awdurdod ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn aderbyniadau cyfalaf) neu
- ddyled (benthyca, prydlesu a Menter Cyllid Preifat).

Mae dull cyllido arfaethedig y gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Arian cyfalaf mewn £ miloedd*

| | 2020/21 gwir (£'000) | 2021/22 rhagolwg (£'000) | 2022/23 cyllideb (£'000) | 2023/24 cyllideb (£'000) | 2024/25 cyllideb (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffynonellau allanol | 1,584 | 1,301 | *146* | 296 | 43 |
| Adnoddau ein hunain | 79 | 335 | *253* | 496 | 196 |
| Dyled | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,663** | **1,636** | ***398*** | **792** | **238** |

Mae'r "ffynonellau allanol" a nodir yn y tabl uchod yn cynrychioli grantiau a chyfraniadau. Mae'r Awdurdod yn "ddi-dyled" ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwriad o fynd i ddyled. Un sefyllfa bosib lle gallasai fod angen benthyca tymor byr yw yn ystod 3 blynedd ddiwetha (2023/24 – 2025/26) y prosiect LIFE – Coedwigoedd Glaw Celtaidd, lle bydd llif arian negyddol sylweddol (oherwydd bydd y taliad grant olaf yn cael ei ddal yn ôl hyd nes y caiff y prosiect ei gwblhau a'i archwilio). Mae proffil presennol y cynllun yn dangos llif arian negyddol o £449,814 ar gyfer 2023/24.

2.6 Mae gan yr Awdurdod gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn ar hyn o bryd,rhagwelir bydd balans y gronfa yn £163,790 ar 31/3/2022.

2.7 Felly mae gofyniad cyllido cyfalaf yr Awdurdod yn 'sero' ac fe ddisgwylir i'r Awdurdod barhau yn ddiddyled yn 2022/23.

2.8 **Rheoli Asedau**: Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd hirdymor, mae gan yr Awdurdod gynllun rheoli asedau ar waith ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i bennu lefel yr ymrwymiad ariannol sydd ei angen dros y blynyddoedd i ddod.

2.9 **Gwaredu Asedau**: Ni ragwelir y bydd yna waredu tir nac adeiladau ar hyn o bryd. Fel arall, mae'r enillion o waredu cerbydau a pheiriannau trwm wedi'u neilltuo ar gyfer ariannu rhai yn eu lle (i'w hamnewid).

## 3 RHEOLAETH TRYSORLYS

3.1 Mae Rheolaeth Trysorlys yn ymwneud â chadw arian digonol ond nid gormod o arian ar gael i ddiwallu anghenion gwario'r Awdurdod, wrth reoli'r risgiau dan sylw. Buddsoddir arian parod hyd nes y bydd ei angen, ac fe ellir diwallu prinder trwy fenthyca, er mwyn osgoi balansau gormodol neu orddrafftiau yn y cyfrif cyfredol yn y banc.

3.2 **Strategaeth fenthyca**: Cytunwyd wrth drafod Polisi'r Awdurdod ar Fenthyca yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (9/11/2016) y dylai unrhyw fenthyca yn y dyfodol fod ar gyfer prosiectau penodol sydd ag achos busnes cadarn. Yn absenoldeb cynnig i'r awdurdod ei hun ariannu cynllun cyfalaf penodol, **bydd yr Awdurdod, yn dechrau ar y flwyddyn ariannol 2021/22 heb unrhyw ddyled ac at ddibenion rheolaeth trysorlys ystyrir fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled.**

3.3 **Cyfyngiad Benthyca Fforddiadwy:** Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod cyfyngiad ar fenthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, gosodir "ffin weithredol" is hefyd fel lefel rhybudd petai'r ddyled yn agosáu at y cyfyngiad / terfyn.

*Tabl 3: Dangosydd Darbodus: Cyfyngiad awdurdodedig a ffîn weithredol mewn £ miloedd*

| | ***Cyfyngiad* 2021/22** | ***Cyfyngiad* 2022/23** | ***Cyfyngiad* 2023/24** | ***Cyfyngiad* 2024/25** |
|---|---|---|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig - benthyca | 500 | 500 | 500 | 500 |
| Cyfyngiad awdurdodedig - PFI a phrydlesi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfyngiad awdurdodedig - cyfanswm dyled allanol | 500 | 500 | 500 | 500 |
| Ffin weithredol - benthyca | 100 | 100 | 100 | 100 |
| Ffin weithredol - PFI a phrydlesi | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ffin weithredol - cyfanswm dyled allanol | 100 | 100 | 100 | 100 |

Ni argymhellir unrhyw ostyngiad i'r 'cyfyngiad benthyca awdurdodedig' a'r 'ffin weithredol', er mwyn cadw hyblygrwydd, yn enwedig yng nghyd-destun ansicrwydd Covid 19 a pwysau cynydd chwyddiant.

3.4 <u>**Strategaeth fuddsoddi**</u>: Mae buddsoddiadau'r Trysorlys yn codi o dderbyn arian parod cyn iddo gael ei dalu allan eto. Yn gyffredinol, ni ystyrir bod buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth yn rhan o reoli'r trysorlys.

3.5 Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau trysorlys yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros enillion buddsoddi; hynny yw canolbwyntio ar leihau risg, yn hytrach na uchafu'r llog a dderbynnir. Caiff arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor byr ei fuddsoddi yn ddiogel, er enghraifft gyda'r Llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau dethol o ansawdd uchel, i leihau"r perygl o golli"r prifswm. Nid yw'r Awdurdod, ar hyn o bryd, yn dal buddsoddiadau am delerau hirach (byddai'r rhain yn cael eu buddsoddi'n ehangach, gan gynnwys bondiau, cyfranddaliadau ac eiddo, i gydbwyso'r risg o golled yn erbyn y risg o dderbyn enillion is na chwyddiant).

3.6 Mi fydd canghenau banc lleol Barclays yn cau ym mis Chwefror, ond mi fydd posib talu arian i mewn drwy gyfrwng y Swyddfa Bost.

3.7 Bydd llif arian dydd i ddydd yr Awdurdod yn cael ei fonitro'n ofalus trwy gydol y flwyddyn. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei adneuo gydag un neu fwy o'r sefydliadau a ganlyn:

- Bank of Scotland
- HSBC
- Santander DU
- Banc Barclays
- Banc Lloyds
- Cymdeithas Adeiladu Nationwide
- Swyddfa Rheoli Dyledion y D.U. (“DMO”)

3.8 Bydd symiau a fuddsoddir yn dibynnu ar y statws credyd presennol a'r lleiafswm balansau gofynnol, tra hefyd yn cynnal balansau digonol i fodloni gofynion llif arian yr Awdurdod. Mae'r prif bwyslais ar ddiogelu arian yr Awdurdod ac i'r perwyl hwn mae swyddogion cyllid yn trefnu bod yna ledaeniad mor ymarferol â phosibl rhwng y sefydliadau cymeradwy (heblaw am Barclays).

3.9 Ar adeg ysgrifennu, mae gan y banciau a nodir uchod, statws credyd priodol (statws credyd tymor byr F1 Fitch neu well am ddal adneuon tymor byr).

3.10 Gall banc Barclays, yng nghyswllt cyfrif cyfredol yr Awdurdod, fod yn eithriad i’r gofyniad statws credyd, lle (os bydd statws credyd y banc yn disgyn) gall yr Awdurdod barhau i adneuo arian sy’n weddill dros nos.

Caiff taliadau cerdyn credyd neu ddebyd am ffioedd parcio a dderbynnir drwy beiriannau talu ac arddangos eu prosesu trwy’r Allied Irish Bank, sydd â graddfa statws credyd F2. Mae'r risg yn cael ei liniaru drwy drosglwyddo i Barclays o fewn 3 diwrnod gwaith.

3.11 Yn ogystal, mae’r Awdurdod yn adneuo arian â chymdeithasau adeiladu heb eu graddio, e.e. Cymdeithas Adeiladu Nationwide, lle mae dadansoddiad credyd annibynnol yn dangos eu bod yn ddigon teilwng o gredyd.

3.12 Petai statws credyd y sefydliadau ariannol cymeradwy yn disgyn yn gyffredinol, bydd yr Awdurdod yn ystyried adneuo arian â Swyddfa Rheoli Dyledion y D.U. ("DMO"). Byddai hynny’n sicrhau diogelwch, ond dim ond ychydig iawn o log fyddai’n dderbyniadwy.

3.13 Mae buddsoddiadau’r Awdurdod ar gyfer dibenion rheolaeth trysorlys yn unig h.y. nid oes eiddo yn cael ei ddal fel buddsoddiad a dim buddsoddiad i gefnogi gwasanaethau.

*Tabl 4: Buddsoddiadau rheolaeth Trysorlys mewn £ miloedd*

| | 31.3.2021 gwir (£'000) | 31.3.2022 rhagolwg (£'000) | 31.3.2023 cyllideb (£'000) | 31.3.2024 cyllideb (£'000) | 31.3.2025 cyllideb (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau tymor agos | 8,269 | 8,958 | 8,228 | 6,351 | 5,424 |
| Buddsoddiadau tymor hwy | | | | | |
| **CYFANSWM** | **8,269** | **8,958** | **8,228** | **6,351** | **5,424** |

Mae'r tabl uchod yn adlewyrchu'r ffaith bod swm sylweddol o grantiau "un-tro" wedi'u talu i'r Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diweddar.

3.14 **Llywodraethu**: Mae penderfyniadau ar fuddsoddiadau rheolaeth trysorlys a benthyca yn cael eu gwneud bob dydd, ac felly'n cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid, fel y'u cynghorir gan y Prif Swyddog Cyllid, lle bo angen. Rhaid i'r Pennaeth Cyllid a'r staff Cyllid weithredu yn unol â Strategaeth Rheoliaeth Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ym mis Chwefror bob blwyddyn. Cyflwynir adroddiadau ar weithgarwch rheolaeth trysorlys i'r Awdurdod fel a ganlyn:

- Bydd adroddiad dros dro ar weithrediad rheolaeth trysorlys ar gyfer 2021/22 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn diwedd blwyddyn galendr 2022 (yn ysgrifenedig neu ar lafar fel y bernir sy'n briodol).

- Bod yr adroddiad blynyddol ar weithrediad rheolaeth trysorlys ar gyfer 2022/23 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Awdurdod Mehefin 2022.

## 4 BUDDSODDIADAU AR GYFER DIBENION GWASANAETH

Nid yw'r Awdurdod yn ymgymryd â buddsoddiadau o'r fath, yn hytrach, mae'n darparu cymorth trwy gyfrwng grantiau trwy e.e. Cronfa Gomisiynu, cronfa grantiau bach, cyllideb adeiladau rhestredig.

## 5 GWEITHGAREDDAU MASNACHOL

5.1 Ar hyn o bryd nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau mewn eiddo er budd ariannol yn unig.

5.2 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol eraill, megis gwely a brecwast yng Nghanolfan Plas Tan y Bwlch, gwerthiant yn y tair Canolfan Groeso ac yn eiddo Yr Ysgwrn. Mae'r enillion yn cyfrannu at gostau rhedeg y gwasanaethau unigol. Fel y nodwyd yn Natganiad Cyfrifon 2020/21 - *£1,400k a gynhyrchwyd o ffioedd, taliadau a godir ac incwm arall sy'n seiliedig ar wasanaeth, ac mae prif gydrannau'r rhain fel a ganlyn:*

- *Incwm ffioedd y Maes Parcio* *£472k*
- *Ffioedd Cynllunio* *£248k*
- *Ffioedd Canolfannau Gwybodaeth* *£63*
- *Rhent* *£33k*

5.3 Rheolir y risgiau dan sylw trwy gyfrwng bwrdd rheoli Plas Tan y Bwlch, bwrdd rheoli'r Ysgwrn ac adroddiadau monitro cyllideb i aelodau'r Awdurdod. Mae Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn hefyd wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

## 6 ATEBOLRWYDD

6.1 Er bod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, mae'n ymrwymedig i wneud taliadau yn y dyfodol i dalu am ei ddiffyg yn y gronfa bensiwn (gwerth £7,317k ar 31/3/2021). Mae'r Awdurdod wedi derbyn symiau sylweddol o grantiau refeniw a chyfalaf "un-tro" a dalwyd ymlaen llaw mewn blynyddoedd diweddar - trosglwyddwyd y rhan fwyaf o'r rhain i'r cronfeydd refeniw a chyfalaf wrth gefn, tra bo rhai (yn cynnwys grant cynllun ERAMMP a grant LIFE) wedi eu cofnodi o dan gredydwyr.

6.2 Mae'r Awdurdod yn adolygu’r cronfeydd wrth gefn yn flynyddol.

6.3 **Llywodraethu**: Adroddir ar sefyllfa'r gronfa bensiwn yn flynyddol i'r aelodau fel rhan o'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Mae'r Pennaeth Cyllid yn adolygu'r sefyllfa o ran defnyddio grantiau a chynnydd yn erbyn proffil fel rhan o'r broses fonitro cyllideb sy'n bwydo i mewn i adroddiadau i'r aelodau bob mis Medi, Rhagfyr a Mawrth, ac adroddiad alldro'r Awdurdod ym mis Mai.

## 7 Goblygiadau’r Gyllideb Refeniw:

7.1 Gan fod yr Awdurdod yn ddi-ddyled, nid oes unrhyw daliadau llog dyled i'r gyllideb refeniw.

7.2 **Cynaliadwyedd:** Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn fodlon bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy oherwydd nid oes angen ei ariannu gan ddyledion allanol.

## 8 GWYBODAETH A SGILIAU

8.1 Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff cymwys a phrofiadol proffesiynol mewn swyddi uwch sy'n gyfrifol am wneud gwariant cyfalaf, benthyca a phenderfyniadau buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifydd cymwysedig gyda 40 mlynedd o brofiad perthnasol (17 mlynedd o brofiad fel swyddog cyllid statudol) gyda mynediad dyddiol at gyngor rheoli trysorlys arbenigol, tra bod y Pennaeth Cyllid hefyd yn gyfrifydd cymwysedig.

8.2 Lle nad oes gan staff yr Awdurdod y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen, mae'n bosibl defnyddio ymgynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes. Ar hyn o bryd, mae gweithrediadau Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod yn gymharol syml, felly nid oes angen arbenigedd allanol, ac eithrio ymgynghori fel bo'r angen gyda Phrif Swyddog Cyllid yr Awdurdod.

## 9 ARGYMHELLION

**9.1 Noder nad oes bwriad i fenthyca arian at ddibenion cyfalaf, ond mae'r cyfyngiadau isod yn cael eu hargymell ar lefel ddarbodus fel mesur rhagofalus rhag ofn bydd argyfwng neu fod angen gwariant ar fyr rybudd.**

**9.2 Cymeradwyo dim newid yn:**

**(i) y Cyfyngiad Benthyca Awdurdodedig o £500,000 ar gyfer 2022/23, a Ffin Weithredol o £100,000, a**

**(ii) dim cyfyngiad ar gyfran y llog sy'n daladwy ar gyfradd amrywiol.**

**9.3 Mabwysiadu'r Strategaeth Benthyca Cyfalaf ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, a nodi'r cynnwys sy'n ymwneud â'r Cod Darbodus (gweler y tablau o dan baragraffau 2.2, 3.3 a 7.1).**

**9.4 Mabwysiadu'r Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2022/23 fel yr amlinellir ym mharagraffau 3.5-3.14 yr adroddiad, a nodi'r sefydliadau a restrir ym mharagraff 3.7.**

**EITEM RHIF 12**

# CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG : 2022/23 – 2025/26
# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

## 1. CEFNDIR

1.1 Dogfen drosolwg yw hon sy'n nodi'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Ategir y ddogfen gan nifer o bapurau technegol a baratowyd gan wasanaeth Cyllid yr Awdurdod, gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn cynghori ar ragolygon strategol.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno’r sefyllfa yn gryno, ac yn benodol bydd yn galluogi Aelodau a staff yr Awdurdod i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:

- Senarios modelu,
- Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau,
- Pennu graddau unrhyw heriau / cyfleoedd ariannol,
- Egwyddorion i fynd i'r afael â phwysau cyllido.

## 2. Y GOFYNIAD AM GYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CATC)

2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn yn nodi ymagwedd strategol yr Awdurdod tuag at reoli ei gyllid, ac mae’n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a all wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r gwaith o gyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru (LlC) ac ar lwyddiant yr Awdurdod o ran unioni adnoddau â’i flaenoriaethau gwasanaeth.

2.2 Mae'r CATC yn nodi cyflwr cyffredinol cyllideb yr Awdurdod ac mae’n amlinellu model o ofynion ariannol yr Awdurdod ar gyfer lefelau’r gwasanaeth y bwriedir eu darparu yn y tymor canolig. Mae hyn yn darparu fframwaith er mwyn galluogi’r Aelodau a’r swyddogion i ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.

2.3 Bydd y CATC yn offeryn allweddol ar gyfer rheolaeth ariannol ragweithiol. Fe’i defnyddir fel sail i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau bod anghenion adnoddau’r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ddigonol ac wedi’u hunioni â’r gwasanaethau cywir, ond hefyd yn caniatáu pennu gofynion ariannu rhagweledig y dyfodol yn ddigon pell ymlaen llaw fel y gellid cynllunio i gymryd camau priodol i ddelio â'r lefelau cyllido a ragwelwyd.

2.4 Bob blwyddyn mae’n rhaid mynd ati i baratoi cyllideb flynyddol. Mae’n arfer dda i ddiweaddaru’r CATC fel rhan o gylch cynllunio’r gyllideb flynyddol. Bydd yr Aelodau’n parhau i gael gwybod am y datblygiadau yn y CATC trwy gyfarfod yr Awdurdod, a bydd y gwasanaethau’n ystyried dewisiadau o ran costau ac arbedion a / neu gynhyrchu incwm fel rhan o gylch cynllunio’r gyllideb flynyddol.

Dogfen Weithredol

2.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu'n answyddogol na fydd cynnydd yn Grant y Parciau Cenedlaethol ar gyfer y dair mlynedd 2022/23 – 2024/25. Er gwaetha'r ffaith fod cyfradd 'CPI' bellach yn 5.4%, gyda rhagolygon gall barhau i godi yn 2022 cyn gostwng erbyn 2023, oherwydd blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, nid oes darpariaeth yn y grant (ac felly nid oes darpariaeth yng nghyfanswm cyllideb yr Awdurdod) ar gyfer effaith chwyddiant ar gostau.

## 3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION TYMOR CANOLIG YR AWDURDOD:

3.1 Mae'r CATC yn anelu i gyfarch sut gellid cyflawni blaenoriaethau canolig i hirdymor, ynghyd ag amcanion a phwrpasau statudol yr Awdurdod. Mae pwrpasau statudol yr Awdurdod wedi'u diffinio yn Neddf yr Amgylchedd 1995 fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal,

- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal;

ac wrth fynd ar ôl y pwrpasau hyn, dylai'r Awdurdod geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol.

3.2 Mae'r dogfennau canlynol yn allweddol i arwain cyfeiriad yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn:

- Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol,
- Cynllun Datblygu Lleol,
- Ein Gweledigaeth,
- Datganiad Lles,
- Blaenoriaethau Gwasanaeth,
- Rhaglen Waith Gorfforaethol,
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y ddogfen "Gwerthfawr a Chydnerth".

(Bydd y ddogfen yma yn cael ei amnewid unwaith bydd llythyr cyfnod Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn)

3.3 Mae pandemig Covid-19 wedi golygu'r angen i ymdopi gyda'r sefyllfa o agwedd diogelu'r cyhoedd a swyddogion yr Awdurdod, ac mae cymorth grant 'cronfa caledi' wedi'i hawlio oddi wrth Llywodraeth Cymru eto yn ystod 2021/22 fel bo ar gael. Mae'r mesurau a gymerir yn golygu colledion incwm sylweddol iawn i'r Awdurdod a rhaid ystyried hyn yn y CATC yma, gan ystyried na fydd grant cyffelyb ar gael ar gyfer 2022/23 a thu hwnt ac mae'n bosib bydd angen i'r awdurdod sefydlu cyllideb neu cronfa caledi ei hyn erbyn 2022/23 er mwyn delio hefo'r her. Ar amser ysgrifennu'r adroddiad mae darpariaeth o £76k wedi cael ei argymell yng nghyllideb 2022/23, ac mi fydd yn cael ei ariannu o'r gronfa Risgiau Penodol.

## 4. YR HER ARIANNOL

4.1 Ers sefydlu awdurdodau'r parciau cenedlaethol ym 1996, mae'r Awdurdod wedi'i rymuso i reoli ei gyllid ei hun, ond wedi goddef cyfnod estynedig o gyfyngiadau ariannol. Mae goblygiadau pandemig Covid-19 wedi ychwanegu at hyn, er y cymorth grant dros-dro a dderbynnir i leddfu'r effaith ariannol.

Dogfen Weithredol

Mae 2021/22, fodd bynnag, wedi gweld grantiau ychwanegol trwy Lywodraeth Cymru sef £900,000 o arian "Tirweddau Cynaliadwy, Llefydd Cynaliadwy" (T.C.Ll.C) i'w wario yn y flwyddyn ariannol 2021/22. Disgwylir y bydd cyllid grant pellach o'r ffynhonnell hon ar gael yn 2022/23, ond nid yw'r swm yn hysbys i ni hyd yma.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na fydd newid yn y ffigyrau dangosol ar gyfer y dair mlynedd canlynol, 2022/23 – 2024/25, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffigyrau dangosol pellach ar gael er mwyn lleddfu effaith chwyddiant ar y gyllideb.

4.3 **Cyllideb Sylfaenol yr Awdurdod:**
Dyma grynodeb o sefyllfa cyllideb gychwynnol yr Awdurdod dros y 5 mlynedd ddiwethaf:

| **Blwyddyn** | **2021/22 £'000** | **2020/21 £'000** | **2019/20 £'000** | **2018/19 £'000** | **2017/18 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Refeniw Gros | 9,939 | 10,385 | 11,165 | 7,430 | 7,160 |
| Incwm Refeniw | -3,318 | -5,201 | -6,307 | -2,907 | -2,299 |
| Gwariant Refeniw Net | 6,620 | 5,184 | 4,858 | 4,523 | 4,861 |
| Gwariant Cyfalaf Net | 1,037 | 1,795 | 998 | 184 | 222 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Wreiddiol** | **7,657** | **6,979** | **5,856** | **4707** | **5,083** |
| Grant | 4,120 | 3,745 | 3,745 | 3,550 | 3,745 |
| Ardoll | 1,373 | 1,248 | 1,248 | 1,183 | 1,248 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 2,164 | 1,986 | 863 | -26 | 90 |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **7,657** | **6,979** | **5,856** | **4,707** | **5,083** |

* Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys toriadau yn ystod y flwyddyn, y grantiau penodol ychwanegol a dderbyniwyd na diwygiadau i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

4.4 **Cyllidebau Blynyddol:**
Rhaid i'r Awdurdod osod ei gyllideb yn amserol. At ddibenion gosod ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddol, mae angen i'r Awdurdod hwn gytuno ar gyllideb gytbwys erbyn yr 11eg o Chwefror mewn unrhyw flwyddyn. Gan na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r ffigwr setliad grant terfynol am 2022/23 cyn mis Mawrth, gall hynny newid yn y cyfamser. Os bydd y setliad yn uwch na'r disgwyl, bydd yr Awdurdod yn methu codi'r ardoll ychwanegol. Os fydd y setliad yn îs, yna gall yr Awdurdod geisio cytundeb y Cynghorau cyfansoddiadol i aros hefo'r ardoll a gymeradwywyd ar 9fed o Chwefror.



Dogfen Weithredol

4.5 **Pwysau Ariannol Blynyddol ar yr Awdurdod:**
Bob blwyddyn mae pwysau ariannol ar yr Awdurdod. Mae'r pwysau hwn yn effaith gronnol:

- Pwysau chwyddiant
- Ymrwymiadau na ellir eu hosgoi
- Mesurau effeithlonrwydd wedi'u cynllunio

4.6 **Pwysau chwyddiant:**
Fel arfer adroddir i'r Awdurdod am bwysau chwyddiant, y rhain yw'r pwysau a bennwyd ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

| Blwyddyn | 2022/23 (£) | 2023/24 (£) | 2024/25 (£) | 2025/26 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Chwyddiant Cyflogau | 206,500 | 101,000 | 103,000 | 105,000 |
| Chwyddiant Cyffredinol | 15,000 | 15,000 | 15,000 | 15,000 |

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oes eglurder ynglŷn a chytundeb tâl Ebrill 2021, na chytundeb tâl Ebrill 2022. Yng nghyd-destun chwyddiant cynyddol, mae posibilrwydd bellach bydd cytundeb tâl Ebrill 2022 cymaint â 4%. Mae'r ffigyrau ar gyfer 2023/24 ymlaen wedi eu darparu ar raddfa 2%.

Mae'r ffigwr chwyddiant cyffredinol wedi ei gynyddu o'i lefel hanesyddol £10,000 yn 2021/22 i £15,000 erbyn 2022/23.

4.7 **Pwysau na ellir ei osgoi:**
Mae'r canlynol wedi'u nodi fel pwysau na ellir ei osgoi ar yr Awdurdod:

2022/23 Deallwn bydd y Grant Parc Cenedlaethol craidd yn aros yr un fath ar lefel 2021/22 erbyn 2022/23, heb unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer chwyddiant.

Mae targed incwm meysydd parcio wedi eu cynyddu yn y gyllideb yn dilyn blwyddyn brysur yn 2021/22. Gyda sefyllfa Covid 19 yn parhau, mae disgwyl i 2022/23 fod gyn mor brysur. Mae yna hyblygrwydd wedi ei adeiladu i mewn i gyllideb Plas Tan y Bwlch, ac mae targedau y Canolfannau Gwybodaeth ac yr Ysgwrn wedi eu cynnal ar yr un lefel a chyllideb 2021/22. Mi fydd Hafod Eryri ar gau unwaith eto tra bydd gwaith yn cael ei gwblhau ar y rheilffordd, felly colled incwm rhent (£55,000) yn parhau.

Fel nodwyd eisoes, ni fydd cymorth ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau Covid 19 yn 2022/23 (gall fod oddeutu £76k), felly bydd angen i'r Awdurodod ddefnyddio darpariaeth o'i gronfa risgiau penodol fel bydd angen, yn ychwanegol at y gyllideb.

2023/24 Mae cyllideb dangosol Llywodraeth Cymru yn dangos tebygolrwydd i'r Grant Parc Cenedlaethol craidd barhau ar yr un lefel erbyn 2023/24 hefyd, heb unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer chwyddiant.

Dogfen Weithredol

Bydd prisiad actiwaraidd newydd (pob 3 blynedd) ar y gronfa bensiwn ac felly cyfraniad pensiwn cyflogwr diwygiedig yn weithredol yn y flwyddyn ariannol hon. Gall y cyfraniad pensiwn gynyddu neu leihau, ond ni fydd yn hysbys cyn hydref 2022.

2024/25 Mae disgwyl i'r setliad grant barhau ar y lefel bresennol. Yr unig bwysau arall sy'n hysbys yw chwyddiant (ac mae rhagamcanion chwyddiant yn llai dibynadwy ymhellach i'r dyfodol).

2025/26 Nid oes gan Lywodraeth Cymru cyllideb dangosol er mwyn dehongli lefel tebygol y setliad grant.

Tra'n cydnabod cyfrifoldeb yr Awdurdod i gynnal yr adeilad a gerddi cofrestredig ym Mhlas Tan y Bwlch, mae'r trefniadau "cynnal gwasanaeth" presennol yn rhai dros dro, gan nad yw cynnal busnes gwely a brecwast gyda'r tebygrwydd o ddefnydd arian cyhoeddus o fewn cwmpawd amcanion gwaith yr Awdurdod. Nid oes amserlen wedi ei osod ar y sefyllfa.

4.8 **Mesurau Effeithlonrwydd wedi'u Cynllunio / Incwm:**

O ran gwariant, mae goblygiad pandemig Covid-19 yn golygu cynnydd mewn costau glanhau, ac mae'r costau hyn wedi'u adnabod fel "un-tro" ar gyfer 2022/23 hyd nes bydd y sefyllfa yn gliriach.

4.9 **Cronfeydd Wrth Gefn:**

Cyflwynir adolygiad blynyddol o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod i gyfarfod o'r Awdurdod. Mae adolygiad eleni wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ar Gyllideb Sylfaenol 2022/23 ar agenda Awdurdod Rhagfyr.

Mae gan yr Awdurdod 14 cronfa wrth gefn sef:

| **Cyfrif Wrth Gefn** | **31/3/2021** | **Cyfredol** | **31/3/2022 (amcan)** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy | 164 | 164 | 164 |
| Cronfa Adran 106 | 294 | 294 | 315 |
| Cronfa Grantiau Refeniw | 2,109 | 579 | 1492 |
| Cronfa Grantiau Cyfalaf | 2,390 | 2,412 | 1205 |
| Cronfa Rheoli Asedau | 445 | 388 | 388 |
| Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus | 225 | 225 | 225 |
| Cronfa Arian Cyfatebol | 1,065 | 893 | 893 |
| Cronfa Llithriad | 555 | 0 | 0 |

Dogfen Weithredol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cronfa Prosiectau | 503 | 459 | 459 |
| Cronfa Isadeiledd Yr Wyddfa | 56 | 56 | 56 |
| Cronfa Risgiau Penodol | 424 | 424 | 424 |
| Cronfa Gwytnwch Staff | 120 | 120 | 120 |
| Cronfa Risgiau Masnachol | 100 | 100 | 100 |
| Cronfa Refeniw Gyffredinol | 662 | 662 | 662 |
| **Cyfanswm** | **9,113** | **6,778** | **6,504** |

'Rydym yn dal i ddisgwyl penderfyniad ar achos Hillside, Aberdyfi, felly nid yw'r uchod yn cynnwys unrhyw amcan o'r canlyniad.

Mae'r Awdurdod yn cynnal adolygiad ffurfiol o'i gronfeydd wrth gefn bob blwyddyn, er mwyn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael.

4.10 **Setliadau Grant Parc Cenedlaethol:**

Fel nodir uchod, disgwylir i'r ffigwr setliad Grant Parc Cenedlaethol aros yr un fath ar gyfer 2022/23, sy'n rhoi cyfanswm grant ac ardoll o £5,493,051, gyda'r cafeat mai ffigwr drafft ydyw, ac felly gall newid.

Nid oes disgwyl unrhyw newid yng nghyd-destun ffigyrau grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd dilynol, ond os bydd y sefyllfa yn newid dyma bosibiliadau o ran cynnydd / gostyngiad grant craidd dros y dair blynedd olynol:

| **Newid mewn cyllid Grant Parc Cenedlaethol ac ardoll** | **2023/24** | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|---|
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| +10% | 549,310 | 494,370 | 444,940 |
| +5% | 274,650 | 260,920 | 247,870 |
| +2.5% | 137,330 | 140,760 | 144,280 |
| +1% | 54,930 | 55,480 | 56,030 |
| 0% | 0 | 0 | 0 |
| -1% | -54,930 | -55,480 | -56,030 |
| -2.5% | -137,330 | -140,760 | -144,280 |
| -5% | -274,650 | -260,920 | -247,870 |
| -10% | -549,310 | -494,370 | -444,940 |

## 5. BLAENORIAETHAU GWASANAETH AC EGWYDDORION GWEITHREDU:

### 5.1 Blaenoriaethau Gwasanaeth:

Mae'r Awdurdod wedi adolygu a mabwysiadu ei flaenoriaethau gwasanaeth ac egwyddorion gweithredu i'w gynorthwyo mewn hinsawdd ariannol heriol. Blaenoriaethau gwasanaeth yr Awdurdod yw:

- Sicrhau bod yr amcanion yng Nghynllun Rheoli'r Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni ein hunain, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc;

Dogfen Weithredol

- Sicrhau bod gan y swyddogaeth gynllunio statudol ddigon o adnoddau a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithiol er mwyn bodloni polisïau cenedlaethol, disgwyliadau cwsmeriaid ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy;

- Dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

- Sicrhau ein bod yn ymwneud yn llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn eu cyflawni;

- Dangos manteision Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lleol ac yn genedlaethol o ran rheoli lle mor arbennig ag Eryri ar gyfer nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- Amddiffyn ein staff, preswylwyr, defnyddwyr a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol rhag lledaenu firws Covid-19 ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

- Sicrhau fod staff ac aelodau'n cael cefnogaeth ddigonol yn eu trefniadau gweithio mewn cyfnod o'r fath a bod lles staff yn cael ei gefnogi.

- Mynd i'r afael â'r anghenion gweithredol a'r pwysau ariannol sy'n deillio o gyfyngiadau a heriau gweithredu mewn amgylchedd heriol a'r mesurau gofynnol wrth ddelio â phandemig Covid-19.

5.2 **Egwyddorion Gweithredu:**

Egwyddorion gweithredu'r Awdurdod (yn unol â rhan 3 o'r Rhaglen Waith Corfforaethol presennol) yw:

- Rôl alluogi â llai o bwyslais ar berchnogaeth a rheolaeth;

- Osgoi dechrau prosiectau sydd â rhwymedigaethau cynnal a chadw hirdymor;

- Annog a galluogi cymunedau lleol i reoli a chymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd;

- Defnyddio cyfryngau electronig fel y brif ffordd o ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth;

- Agwedd strategol tuag at dwristiaeth gynaliadwy, addysg amgylcheddol a wardeinio;

- Dod o hyd i ffrydiau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

Dylai'r Awdurdod wneud yn siŵr bod pob un o'r gweithgareddau y mae'n eu cynllunio yn gyson â'r uchod, ac mai dyma'r paramedr cyntaf i'w ddefnyddio wrth osod y gyllideb flynyddol.

Mae'r modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei fusnes yn ystod y cyfnodau economaidd hyn yr un mor bwysig ac yng nghyd-destun hyn bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r dull gweithredu a ganlyn:

Dogfen Weithredol

- ymgorfforí datblygiad cynaliadwy yn ddyfnach fyth fel egwyddor graidd sy'n arwain ein holl waith;

- trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl o alluogi a hwyluso wrth gyflawni ein pwrpasau;

- gwerthuso holl ymrwymiadau ariannol tymor hir ac ymrwymiadau eraill ar gyfer pob prosiect posibl;

- gweithio gyda'n cymunedau wrth gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod;

5.3 **Strategaeth ariannol:**

Yn gyffredinol mae'r targedau incwm ar gyfer 2022/23 wedi eu cynnal ar yr un lefel â 2021/22. Gyda'r tebygrwydd o gyfyngiadau Covid-19 yn parhau i rhyw raddau yn 2022/23, bydd angen darpariaeth ar gyfer y colledion incwm (net o arbedion gwariant).

Mae disgwyl i'r setliad Grant Parc Cenedlaethol craidd barhau ar lefel stond dros y dair mlynedd olynol, ac er nad oes darpariaeth ar gyfer chwyddiant, mae hyn ar y lleiaf yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â sefyllfa ariannol yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r arian ychwanegol drwy grantiau penodol (yn hytrach na'r grantiau craidd) yn dod â gwaith gweinyddu ychwanegol gydag o. Felly, mae angen ystyried oblygiadau'r pwysau gwaith ychwanegol ar rai o wasanaethau'r Awdurdod.

5.4 **Camau Perthnasol i'r dyfodol:**

- Adolygu'r CATC wrth i wybodaeth berthnasol fod ar gael i'r Awdurdod.

- Cyd-weithio gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth ar gyfer costau chwyddiant yn ystod y flwyddyn 2022/23.

- Cyd-weithio gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymrwymiad ar gyllidebau dangosol yn y dyfodol.

- Sicrhau fod yr Awdurdod yn cyflawni ar ei oblygiadau statudol.

- Sicrhau fod datrysiad ar faterion gallu i gyflawni ar ddyraniadau cyfalaf.

- Sicrhau defnydd llawn o'r adnodd ychwanegol a gynhigir gan Lywodraeth Cymru trwy'r dyraniad cyllid T.C.Ll.C yn 2022/23. Disgwylir i'r dyraniad fod oddeutu £1m i Awdurdod Parc Eryri.

- Ceisio dylanwadu ar Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth ar gyfer costau chwyddiant yn y grant craidd ar gyfer 2023/24 a 2024/25.

Dogfen Weithredol

**EITEM RHIF 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **DYDDIAD:** | 9 Chwefror, 2021 |
| **TEITL:** | **CYDNERTHEDD YR AWDURDOD: TELERAU AC AMODAU STAFF** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | I'r Aelodau ystyried ymatebion i'r Ymgynghoriad Staff a'r Undebau Llafur ar:<br>i. Addasiadau i fandiau cyflog<br>ii. Cydnabod dwyieithrwydd<br>iii. Diwrnod ychwanegol o wyliau ar ddydd Gŵyl Dewi<br><br>Aelodau i ystyried yn ffurfiol a chytuno ar newidiadau i delerau ac amodau staff i'w gweithredu |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn dilyn adroddiad gan Archwilio Cymru ar gydnerthedd yr Awdurdod wrth ddarparu ei wasanaethau, amlygwyd materion gweithlu penodol yr oedd angen mynd i'r afael â hwy. Ystyriodd yr Aelodau'r materion hyn am y tro cyntaf yn ei weithgor ym mis Mehefin 2021. Ystyriwyd adroddiadau pellach gan yr aelodau a chomisiynwyd adolygiad o delerau ac amodau staff gan yr Awdurdod.

1.2 Bu'r Aelodau'n ystyried y materion amrywiol yn ystod cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau ym mis Mehefin, Hydref, a Rhagfyr 2021 a chyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2021.

Roedd yr adroddiadau'n caniatáu i aelodau ystyried elfennau penodol:

- Meysydd cyflawni sydd angen cefnogaeth bellach,
- Recriwtio a chadw staff,
- Datblygu staff,
- Amodau gwaith staff.

1.3 Un o'r meysydd allweddol a ystyriwyd gan yr Aelodau oedd gallu'r Awdurdod i gwrdd â heriau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg a materion sy'n ymwneud â chadw a recriwtio staff. Ar ôl ystyried yr adroddiad a gomisiynwyd, daethpwyd i'r casgliad nad oedd strwythur tâl yr Awdurdod yn gystadleuol, o'i gymharu â chyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus yng Ngogledd Orllewin Cymru. Yn dilyn ystyriaethau o'r fath, penderfynodd y gweithgor argymell rhai materion penodol i'r Awdurdod yn ffurfiol.

1.4 Penderfynodd yr Awdurdod ym mis Rhagfyr i ymgynghori'n ffurfiol â'i weithlu a'i undebau llafur ar agweddau o delerau ac amodau staff. Mae'r adolygiad a'r

ymgynghoriad hwn ond yn ystyried ffactorau sy'n ymwneud ag amodau gwaith y gweithlu sy'n destun Telerau ac Amodau'r Llyfr Gwyrdd (ac eithrio'r Tîm Rheoli). Mae argymhelliad ar wahân gan aelodau i adolygu capasiti/rôl y Tîm Rheoli wedi hynny unwaith y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau a'i weithredu.

**Cynigion a ystyriwyd:**

1.5 **Graddfa gyflog a bandiau cyflog yr Awdurdod:**

1.5.1 Y cyngor o'r adolygiad oedd addasu bandiau cyflog yr Awdurdod o ddau bwynt cyflog, a gefnogwyd gan yr Aelodau yn eu gweithgor ac a gefnogwyd wedi hynny gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2021 at ddiben ymgynghori â staff a'r undebau llafur.

1.5.2 Canfu'r adroddiad y byddai addasu meingefn cyflog yr Awdurdod drwy ymestyn y graddfeydd cyflog presennol o ddau bwynt meingefn yn galluogi strwythur tâl yr Awdurdod i fod yn debyg i gyflogwyr sector cyhoeddus eraill yn y rhanbarth ar draws ystod eang o ddisgyblaethau.

1.6 **Dwyieithrwydd o fewn y strwythur tâl:**

1.6.1 Argymhellodd yr Aelodau hefyd y dylid hefyd cynnwys cydnabyddiaeth o ddwyieithrwydd yn yr adolygiad o strwythur tâl yr Awdurdod. Roedd yr Aelodau o'r farn bod y gallu i fod yn ddwyieithog yn hanfodol i alluogi'r Awdurdod i ddarparu ei wasanaethau, ac mae achos busnes i gydnabod hynny yn ei strwythur tâl.

1.6.2 Cytunodd yr aelodau y byddai safon gyffredin ar draws y gweithlu yn ddymunol. Argymhellwyd y gellid addasu'r fframwaith sgiliau iaith Gymraeg mabwysiedig presennol i'r diben hwnnw. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau a chyrhaeddiad yn y Gymraeg ar gyfer pob swydd mewn pedwar maes.

1.6.3 Cymeradwyodd yr aelodau fframwaith ar gyfer ymgynghori, a oedd yn cynnwys y safon ieithyddol ddisgwyliedig ar gyfer y ddwy iaith cyn symud ymlaen i'r pwynt cyflog terfynol mewn unrhyw fand cyflog. Mae'n debyg y bydd y safon ieithyddol ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi fel y'i nodir dan y fframwaith sgiliau iaith Gymraeg yn uwch na'r safon gyffredin ar draws yr Awdurdod. Nodir lefelau cyrhaeddiad y ddwy iaith ar gyfer y strwythur tâl:

- Gwrando (3)
- Darllen (2)
- Siarad (3) ac
- Ysgrifennu (2).

1.7 **Dydd Gŵyl Dewi** :

1.7.1 Yn dilyn dyfarnu gwyliau yn ôl disgresiwn ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2021 fel cydnabyddiaeth i staff am weithio drwy'r pandemig, gofynnodd penderfyniad gan yr Awdurdod o Chwefror 2021 y dylid ystyried rhoi gwyliau diwrnod dewisol ychwanegol i staff ar Ddydd Gŵyl Dewi.

1.7.2 Ar ôl ystyried effaith bosibl gwyliau diwrnod ychwanegol ar fusnes yr Awdurdod, argymhellodd yr Awdurdod y dylid cynnwys diwrnod dewisol ar Ddydd Gŵyl Dewi yn yr ymgynghoriad â staff.

1.8 **Meysydd cyflawni a phenodiad cyfnod penodol:**

1.8.1 Ym mis Rhagfyr 2021, penderfynodd yr Awdurdod nodi meysydd cyflawni a oedd angen cymorth pellach neu sydd angen eu datblygu a phenderfynwyd rhoi'r disgresiwn i'r Tîm Rheoli gynnig swyddi parhaol hyd yn oed os mai dim ond cyllid tymor canolig oedd ar gael ar adeg recriwtio. Dywedwyd wrth yr aelodau bod swyddogion wrthi'n edrych ar gyfleoedd ariannu ar gyfer y prif feysydd cyflawni a oedd yn cael eu cydnabod:

- Y Gwasanaeth cynllunio,
- Economi – deall economïau gwledig, seiliedig ar y tir a'r amgylchedd,
- Rheoli grantiau,
- Twristiaeth gynaliadwy,
- Datgarboneiddio,
- Adfer natur a newid hinsawdd,
- Gweithio gyda phobl ifanc,
- Etifeddiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd uchod hefyd wedi'u nodi yn y rhaglen Lywodraethu ar gyfer y tymor presennol.

## 2. YMGYNGHORI Â STAFF A'R UNDEBAU LLAFUR:

2.1 Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad rhwng 20 Rhagfyr 2021 a 21 Ionawr 2022 **(Gweler Atodiad 1.)**

## 3. CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD:

| | **Ymatebion** | **Cefnogol** | **Ddim yn Gefnogol** |
|---|---|---|---|
| Addasu bandiau cyflog ar draws y golofn gyflog | 62 | 59 | 3 |
| Dydd Gŵyl Dewi | 62 | 62 | - |
| Dwyieithrwydd o fewn y strwythur tâl | 62 | 61 | 1 |

## 4. YMATEB Y RHEOLWYR I SYLWADAU PERTHNASOL A DDARPARWYD AR YR YMGYNGHORIAD:

4.1 Mae'r holl ymatebion sy'n dilyn o'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2.**

Crynhoaf y prif faterion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad mewn perthynas â:

4.2 **Y meingefn cyflog:**

1. Pryderon ynghylch sut mae pen isaf y golofn gyflog yn berthnasol i'r Cyflog Byw. **Ymateb:** Mae'r Awdurdod wedi penderfynu talu'r cyflog byw ers sawl blwyddyn. Os yw'r cyflog byw yn uwch na'r pwynt cyflog isaf yn ein strwythur tâl mae'r Awdurdod yn talu'r cyflog byw ac yn dileu unrhyw bwyntiau tâl sy'n disgyn islaw hyn. Mae dryswch yn bodoli mewn perthynas â'r cyflog byw gan fod dau gyflog byw (yn ychwanegol at yr isafswm cyflog) : y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Go Iawn. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw Cenedlaethol gan fod hwn yn

cael ei osod gan y Llywodraeth ac yn cael ei ystyried gan gyflogwyr ac Undebau Llafur wrth drafod dyfarniadau cyflog cenedlaethol.

2. Mae swyddi tebyg yn cael eu gwobrwyo'n well mewn cyrff cyhoeddus eraill.
   **Ymateb:** dyma'r rheswm dros adolygu meingefn cyflog yr Awdurdod. Roedd y swyddi a nodwyd yn yr ymateb wedi eu hystyried yn flaenorol, i grynhoi mae'r teitlau swyddi yn debyg, ond mae'r dyletswyddau penodol yn wahanol ac felly byddai gwahaniaethau mewn tâl i adlewyrchu gwahanol gyfrifoldebau.

3. Nid yw'r broses arfarnu swyddi yn ddigonol.
   **Ymateb:** cafodd y broses o werthuso swyddi a fabwysiadwyd ei chynnwys fel rhan o'r adolygiad a chanfuwyd ei bod yn hawdd ei deall, yn cael ei chymhwyso'n gyson ac yn addas i'r diben.

4. Mae codiadau cyflog yn fwy ar ben uchaf y band cyflog.
   **Ymateb:** mae hyn yn anochel gan nad oes gan y gwahaniaethau rhwng pwyntiau cyflog yr un gwerth ar draws y golofn gyflog.

5. Mae angen cynnal asesiad effaith cydraddoldeb.
   **Ymateb:** mae sgrinio ar gyfer yr angen am asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i wneud, ni nodwyd unrhyw achos dros asesiad sgrinio llawn.

4.3 **Dydd Gŵyl Dewi:**

Ni chodwyd unrhyw faterion a oedd angen ymateb.

4.4 **Dwyieithrwydd o fewn y strwythur tâl:**

1. Mae angen i'r Awdurdod ddarparu hyfforddiant.
   **Ymateb:** Mae'r Awdurdod yn darparu cefnogaeth i ddysgwyr y Gymraeg ac adfywio/gwella iaith yn y ddwy iaith.

2. Mae angen i siaradwyr Cymraeg roi mwy o gyfle i ddysgwyr ymarfer. **Ymateb:** Mae hyn yn digwydd yn naturiol yn y rhan fwyaf o wasanaethau ond nid yw'n gyson ar draws yr Awdurdod.

3. Safon ddim yn ddigon heriol.
   **Ymateb:** mae safon y strwythur tâl yn is nag y byddai ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi fel y'u gosodwyd gan safon y Gymraeg. Pwrpas polisi o'r fath yw annog dysgwyr i ddod yn rhugl ac yn hyderus mewn tasgau o ddydd i ddydd yn y ddwy iaith a symud ymlaen i'r safon a nodwyd ar gyfer eu rôl benodol wedi hynny.

## 5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU:

5.1 Mae addasiadau i golofn gyflog yr Awdurdod wedi'u costio (tua £213,000) ac wedi'u cynnwys yn y llinell sylfaen ar gyfer 2022/23 ymlaen.

## 6. CASGLIAD:

6.1 Yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau yn eu Gweithgorau ac yn yr Awdurdod, ac ystyriaeth gan y Tîm Rheoli ac ymgynghori â staff a’r Undebau Llafur a'u hymatebion, dylai'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r cynigion a ystyriwyd. Wrth fabwysiadu’r cynigion, mae gennyf y sylwadau a ganlyn:

- Wrth fabwysiadu ymestyn y bandiau cyflog presennol o ddau bwynt cyflog ar draws y golofn gyflog (Llyfr Gwyrdd) dylid gweithredu hyn o 1 Ebrill 2022.

- Wrth ymestyn y bandiau cyflog presennol o ddau bwynt cyflog dylai'r Tîm Rheoli adolygu nifer y pwyntiau cyflog o fewn pob band cyflog.

- Wrth fabwysiadu diwrnod dewisol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, dylid ei roi ar waith o 1 Mawrth 2022.

- Wrth fabwysiadu bod pwynt cyflog terfynol unrhyw fand cyflog yn cael ei gyfyngu yn amodol ar gyrraedd safon iaith y cytunwyd arni (fel y nodir ym mharagraff 1.6.3) bod effeithiolrwydd polisi o’r fath yn cael ei adolygu ymhen 5 mlynedd.

6.2 Fel mater ar wahân, gofynnodd aelodau yn eu Gweithgor ym mis Mehefin hefyd am adroddiad (ar gasgliad yr adolygiad hwn) ar gapasiti/rôl y Tîm Rheoli maes o law. Bydd Cadeirydd yr Awdurdod yn ystyried y ffordd orau o gynnal adolygiad o'r fath.

## 7. ARGYMHELLION:

**7.1 Nodi cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad.**

**7.2 Cymeradwyo addasiad ym mandiau cyflog yr Awdurdod gan ddau bwynt cyflog (i fyny) ar y feingefn gyflog fel y nodir ym mharagraff 6.1**

**7.3 Cymeradwyo diwrnod ychwanegol, gwyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi o 2022 ymlaen.**

**7.4 Cymeradwyo cadw’r pwynt cyflog olaf mewn unrhyw fand cyflog yn ddarostyngedig y cyrhaeddir y safon y cytunwyd arni yn y Gymraeg a’r Saesneg fel y nodir ym mharagraff 6.1.**

Cyswllt · Contact
Ffôn ·Telephone
Ein cyf · Our ref
Eich cyf ·Your ref
Dyddiad · Date 20 Rhagfyr 2021
e-bost · e-mail

**PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
lle i enaid gael llonydd
**SNOWDONIA NATIONAL PARK**
one of Britain's breathing spaces

**YMGYNGHORIAD STAFF:**
**20 Rhagfyr, 2021 – 21 Ionawr, 2022**

## GWYTNWCH YR AWDURDOD: TELERAU AC AMODAU STAFF

Yn dilyn Adroddiad Archwilio Cymru ar gadernid yr Awdurdod wrth ddarparu ei wasanaethau; ystyriwyd sawl maes allweddol. Adolygodd y Tîm Rheoli'r adroddiad Archwilio a chael arweiniad a chefnogaeth aelodau'r Awdurdod i fynd i'r afael â meysydd allweddol.

Y meysydd allweddol a nodwyd yw:
1. Meysydd cyflawni a sgiliau i gwrdd â heriau cyfredol ac yn y dyfodol i'r Awdurdod,
2. Recriwtio a chadw staff,
3. Datblygu staff ac
4. Amodau gwaith staff.

Dim ond y telerau ac amodau staff sy'n ddarostyngedig i amodau gwasanaeth y llyfr gwyrdd nad ydynt yn cynnwys y Tîm Rheoli a ystyriodd yr Awdurdod. Yn dilyn yr Awdurdod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr, mae gennyf awdurdod i ymgynghori â staff a'r undebau llafur ar faterion sy'n cael effaith ar delerau ac amodau staff. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor tan yr 21ain o Ionawr 2022. Rwy'n bwriadu adrodd ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Awdurdod ar y 9fed o fis Chwefror pan fydd yr aelodau yn gallu gwneud penderfyniad terfynol ar delerau ac amodau staff i gefnogi'r cadernid yr Awdurdod wrth iddo gyflawni ei wasanaethau.

**Mae dau faes sy'n effeithio ar amodau gwaith staff cyfredol, dymunaf glywed eich barn ar yr hyn a ganlyn:**

1. **Ail-addasu meingefn cyflog yr Awdurdod trwy estyn dau bwynt meingefn ar bob band cyflog i'r bandiau cyflog presennol (ynghlwm yma meingefn cyflog a'r bandiau cyflogau presennol)**

   Graddfa ~ Grades.pdf

2. **Darparu diwrnod dewisol ychwanegol o wyliau blynyddol ar gyfer diwrnod Dydd Gŵyl Dewi Sant**

**Nodwch a ydych chi'n cefnogi neu os nad ydych chi'n cefnogi'r ddau gynnig uchod ar y Ffurflen amgaeedig a rhowch unrhyw sylwadau os gwelwch yn dda.**
**(Linc i'r ffurflen yn yr e-bost)**

Mae'r Awdurdod yn dymuno datblygu gweithlu cwbl ddwyieithog, i gynorthwyo'r hyn mae'r Awdurdod yn ystyried fel y ffordd orau o gydnabod gweithlu dwyieithog trwy ei strwythur cyflog. Gall y cynnig hwn effeithio ar recriwtiaid newydd i'r Awdurdod, penodiadau mewnol i swyddi gwag neu swyddi newydd yn yr Awdurdod, ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ar weithwyr presennol. Gallai mynediad at bwynt cyflog terfynol unrhyw fand cyflog fod yn

Swyddfa'r Parc Cenedlaethol · National Park Office. Penrhyndeudraeth. Gwynedd LL48 6LF
☎ 01766 770274 🖷 01766 771211 parc@eryri.llyw.cymru www.eryri.llyw.cymru
Am Faterion Cynllunio / For Planning Matters: cynllunio@eryri.llyw.cymru
Croesawir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

ddarostyngedig i gyrraedd lefel cyflawniad yn y ddwy iaith. Bydd angen safon gyfartal ar gyfer y ddwy iaith. Cynigir defnyddio'r safon Gymraeg bresennol fel fframwaith ond ei haddasu at ddibenion y ddwy iaith.

Amgaeir y safon Gymraeg bresennol yma. Y safon arfaethedig ar gyfer y ddwy iaith yw:

- Gwrando - lefel 3
- Darllen - lefel 2
- Siarad - lefel 3 a
- Ysgrifennu - lefel 2.

Fframwaith Sgiliau Iaith APCE.pdf

**Rhowch eich sylwadau ar y Ffurflen amgaeedig.**
**(Linc i'r ffurflen yn yr e-bost)**

Unwaith y bydd yr Awdurdod yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, byddaf yn adrodd yn ôl i'r staff ar yr holl faterion o dan sylw. Erbyn mis Chwefror bydd yr Awdurdod wedi derbyn ei gyllideb ddangosol ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac ar ôl hynny byddaf mewn gwell sefyllfa i'ch cynghori ar sut y gallwn wella cadernid ein gwasanaethau ymhellach.

Edrychaf ymlaen at glywed eich sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn.

A gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich gwaith a dymuno seibiant cysurus braf dros y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Yn gywir,



**Emyr Williams.**
**Prif Weithredwr.**

**Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw aelodau staff nad ydyn nhw o bosib yn derbyn e-byst neu nad ydyn nhw'n agor eu negeseuon e-bost, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ymwybodol o'r ymgynghoriad hwn os gwelwch yn dda.**

## FFEILIAU WEDI'U CYNNWYS GYDA'R LLYTHYR YMGYNGHOROL :

## PWYNTIAU CYFLOG:

| Presennol / Present | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Blynyddol Annual | Misol Monthly | Awr Hour | | |
| | | | | | |
| 1 | 17,842 | 1486.83 | 9.25 | **Graddfa / Grade 1 Pwynt / Point 1** | |
| 2 | 18,198 | 1516.50 | 9.43 | | **Graddfa / Grade 2 Pwynt / Point 2** |
| 3 | 18,562 | 1546.83 | 9.62 | **Graddfa / Grade 3 Pwyntiau / Points 3 - 4** | |
| 4 | 18,933 | 1577.75 | 9.81 | | |
| 5 | 19,312 | 1609.33 | 10.01 | | **Graddfa / Grade 4 Pwyntiau / Points 5 - 6** |
| 6 | 19,698 | 1641.50 | 10.21 | | |
| 7 | 20,092 | 1674.33 | 10.41 | **Graddfa / Grade 5 Pwyntiau / Points 7 - 11** | |
| 8 | 20,493 | 1707.75 | 10.62 | | |
| 9 | 20,903 | 1741.92 | 10.83 | | |
| 10 | 21,322 | 1776.83 | 11.05 | | |
| 11 | 21,748 | 1812.33 | 11.27 | | |
| 12 | 22,183 | 1848.58 | 11.50 | | |
| 13 | 22,627 | 1885.58 | 11.73 | | **Graddfa / Grade 6 Pwyntiau / Points 13 - 17** |
| 14 | 23,080 | 1923.33 | 11.96 | | |
| 15 | 23,541 | 1961.75 | 12.20 | | |
| 16 | 24,012 | 2001.00 | 12.45 | | |
| 17 | 24,491 | 2040.92 | 12.69 | | |
| 18 | 24,982 | 2081.83 | 12.95 | | |
| 19 | 25,481 | 2123.42 | 13.21 | **Graddfa / Grade 7 Pwyntiau / Points 19 - 23** | |
| 20 | 25,991 | 2165.92 | 13.47 | | |
| 21 | 26,511 | 2209.25 | 13.74 | | |
| 22 | 27,041 | 2253.42 | 14.02 | | |
| 23 | 27,741 | 2311.75 | 14.38 | | **Graddfa / Grade 8 Pwyntiau / Points 23 - 27** |
| 24 | 28,672 | 2389.33 | 14.86 | | |
| 25 | 29,577 | 2464.75 | 15.33 | | |
| 26 | 30,451 | 2537.58 | 15.78 | | |
| 27 | 31,346 | 2612.17 | 16.25 | | |
| 28 | 32,234 | 2686.17 | 16.71 | **Graddfa / Grade 9 Pwyntiau / Points 28 - 30** | |
| 29 | 32,910 | 2742.50 | 17.06 | | |
| 30 | 33,782 | 2815.17 | 17.51 | | **Graddfa / Grade 10 Pwyntiau / Points 30 - 32** |
| 31 | 34,728 | 2894.00 | 18.00 | | |
| 32 | 35,745 | 2978.75 | 18.53 | **Graddfa / Grade 11 Pwyntiau / Points 32 - 34** | |
| 33 | 36,922 | 3076.83 | 19.14 | | |
| 34 | 37,890 | 3157.50 | 19.64 | | **Graddfa / Grade 12 Pwyntiau / Points 34 - 36** |
| 35 | 38,890 | 3240.83 | 20.16 | | |
| 36 | 39,880 | 3323.33 | 20.67 | **Graddfa / Grade 13 Pwyntiau / Points 36 - 38** | |
| 37 | 40,876 | 3406.33 | 21.19 | | |
| 38 | 41,881 | 3490.08 | 21.71 | | **Graddfa / Grade 14 Pwyntiau / Points 38 - 40** |
| 39 | 42,821 | 3568.42 | 22.20 | | |
| 40 | 43,857 | 3654.75 | 22.73 | **Graddfa / Grade 15 Pwyntiau / Points 40 - 42** | |
| 41 | 44,863 | 3738.58 | 23.25 | | |
| 42 | 45,859 | 3821.58 | 23.77 | | |
| 43 | 46,845 | 3903.75 | 24.28 | | |

# FFRAMWAITH SGILIAU IAITH

**Fframwaith Sgiliau Iaith –**
**Asesu Lefelau yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

| | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 5+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwrando** | Dim sgiliau. Yn gallu adnabod Cymraeg pan mae'n cael ei siarad. | Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg. | Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn y Gymraeg. | Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl a wnelo gwaith. | Yn gallu dilyn rhan fwyaf o drafodaethau a wnelo gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp. | Yn gallu deall bob trafodaeth a wnelo a gwaith. | Yn gallu deall Cymraeg ym mhob sefyllfa ffurfiol ac anffurfiol mewn pob acen a thafodiaith, gan gynnwys terminoleg arbenigol. |
| **Darllen** | Dim sgiliau. Yn gallu adnabod bod testun wedi cael ei ysgrifennu yn y Gymraeg ac yn gallu adnabod 1 neu 2 air. | Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, e.e. arwyddion neu nodiadau byr a syml. | Yn gallu darllen deunydd sylfaenol a wnelo gwaith (yn araf). | Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur. | Yn gallu darllen rhan fwyaf o ddeunyddiau yn y maes gwaith. | Yn gallu deall pob deunydd ysgrifenedig. | Yn gallu darllen pob testun Cymraeg yn hawdd, heb ots am y cymhlethdod, ffurfioldeb neu'r manylyn technegol. Yn gallu prawf ddarllen a golygu i safon broffesiynol. |
| **Siarad** | Dim sgiliau. Yn gallu ynganu 1 neu ddau gyfarchiad. | Yn gallu cynnal sgwrs gyffredinol (cyfarchion, enwau, enwau lleoedd). | Yn gallu ymateb i ymholiadau syml a wnelo gwaith. | Yn gallu sgwrsio a rhywun arall, gydag ychydig o betruster, a wnelo materion gwaith arferol. | Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhai geiriau Saesneg. | Rhugl - yn gallu cynnal trafodaeth ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo'r angen. | Rhugl - yn gallu siarad gyda hyder ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys materion cymhleth. Yn gallu addasu steil yr iaith yn unol â'r gynulleidfa, ac yn gallu hwyluso a chanoli trwy'r Gymraeg ym mhob sefyllfa. |

| | Lefel 0 | Lefel 1 | Lefel 2 | Lefel 3 | Lefel 4 | Lefel 5 | Lefel 5+ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgrifennu** | Dim sgiliau. | Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol. | Yn gallu ymateb i ohebiaeth syml gyda chymorth. | Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth i olygu. | Yn gallu darparu rhan helaeth o ddeunyddiau ysgrifenedig mewn perthynas â gwaith, gyda rhywfaint o gymorth i olygu. | Medrus – yn gallu cwblhau gwaith ysgrifenedig heb unrhyw gymorth i olygu. | Medrus - yn gallu ysgrifennu testun estynedig, adroddiadau, erthyglau, ymatebion polisi, cofnodion neu unrhyw fath arall o ysgrifennu, mewn steil sy'n addas i'r darllenwr a'r cyfrwng, heb angen cefnogaeth golygu. Yn gallu cyfieithu yn addas ac yn fanwl gywir mewn unrhyw sefyllfa. |

**ATODIAD ~ APPENDIX 2**

| SYLWADAU STAFF: CYFLOGAU | STAFF COMMENTS: SALARIES |
|---|---|

| |
|---|
| Rwyf wedi ymateb gyda peidiwch â chefnogi gan nad wyf yn ymwybodol o sut mae'r meingefn cyflog yn cael ei chyfrifo, rwy'n teimlo fel Awdurdod Arweiniol y dylai'r Parc 'arwain drwy esiampl' a dod â'r raddfa gyflog i gyfradd well yn y gymuned fel bod cyflogwyr eraill yn gallu dilyn a gwneud yr un fath - Gradd 1 yw £9.25 = dim ond £0.34 dros yr isafswm cyflog cenedlaethol. CYFLOG BYW Y LLYWODRAETH YW £9.90, FELLY MAE RHAI HYD AT RADDFA 5 YN ENNILL O DAN Y CYFLOG BYW. CREDAF Y BYDD HYN YN CYNNYDDU I £11.05 Y FLWYDDYN NESAF . |
| I have responded with do not support as I am unaware of how the pay spine is calculated, I do feel as a Leading Authority the Park should 'lead by example' and bring the pay scale to a better rate in the community so that other employers may follow suit - Grade 1 is £9.25 = only £0.34 over the national minimum wage. THE GOVERNMENTS LIVING WAGE IS £9.90, THEREFEORE THOSE UP TO SCALE 5 ARE EARNING UNDER THE LIVING WAGE. THIS WILL INCREASE TO £11.05 NEXT YEAR I BELIEVE. |
| Mae codiad cyflog o'r fath yn well na dim, ond nid ydi'r bwriad yn mynd hanner ddigon pell. yn fy marn i Dwi'n dweud hyn yng nghyd-destyn swyddi cyffelyb mewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru a Lloegr sy'n gyson yn talu tua £5k y flwyddyn yn fwy nag APCE. Does ryfedd felly fod APCE yn cael cryn drafferth i recriwtio staff mewn rhai achosion. Does ryfedd chwaith fod trosiant staff yn rhwystredig o uchel ar adegau hefyd. |
| In my opinion such a wage increase is better than nothing but the proposal doesn't go far enough. I say this in the context of similar posts in other National Park Authorities across Wales and England who consistently pay around £5k a year more than SNPA. It is little wonder therefore that SNPA has problems recruiting staff on occasions. It is any wonder also that the turnover of staff is frustratingly high on occasions. |
| Cefnogi cyn belled â'i fod yn fforddiadwy yn y tymor canolig |
| Support as long as it's affordable in the medium term. |
| Mae cadw staff yn broblem, fel y gwyddoch, ond hefyd mae rhai aelodau o staff yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â rhent neu ddod o hyd i leoedd i fyw wrth i eiddo rhent gael eu troi'n Air B&B neu eu gwerthu am brisiau proffidiol (cyfredol). Mae prynwyr arian parod sy'n dod i mewn gyda chynigion uchel yn gwneud pethau hyd yn oed yn fwy anodd oherwydd mae yna lai o dai ar ôl am brisiau rhesymol. Mae gan APCE gyflog eithaf isel mewn gwirionedd o'i gymharu â'i debyg mewn sectorau eraill - byddai swyddi rheoli neu broffesiynau yn mynd am tua £50-70k er enghraifft, a'r cyflog cychwynnol ar gyfer swyddi graddedigion ar gyfer 2022 yn y Gwyddorau Biolegol ar gyfartaledd tua £24k (yn ôl i adroddiad Deilliannau Graddedigion gan HESA). Mae'n ddealladwy bod staff yn gorfod ystyried opsiynau eraill, p'un a ydynt am wneud hynny ai peidio. |
| Staff retention is an issue, as you know, but also some members of staff are struggling to keep up with rent or finding places to live as rental properties are turned into Air B&B or sold at (current) lucrative prices. Cash buyers coming in with high offers are making things even more difficult as there are just fewer houses left at reasonable prices. SNPA has really quite low pay |

compared to similar posts in other sectors - management positions or certain professions would be circa £50-70k for example, and the starting salary for graduate jobs for 2022 in the Biological Sciences average out at around £24k (according to the Graduate Outcomes report by HESA). It's understandable that staff are having to consider other options, whether they want to or not.

Hen bryd
Long Overdue

"Er fy mod yn croesawu'r cynnydd cyflog a awgrymir, ni chredaf fod yr hyn a gynigir gan yr Awdurdod yn yr ymgynghoriad yma yn ddigonol. Nid yw'r cynnig a rhoddir yn mynd i'r afael ar y fater craidd sy'n bodoli, sef fod rhai swyddi o fewn yr Awdurdod yn cael eu tan-gwerthfawrogi, ac felly'n sgorio'n is nag y dylent fod, gan arwain at raddau a chyflogau is. Hyd yn oed ar gyfer y swyddi hynny sydd wedi'u graddio'n gywir, mae yna ddigon o enghreifftiau allan yna o swyddi cyfatebol o fewn sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes gwaith yng Nghymru, ond sy'n talu llawer mwy, gan gynnwys elusennau / sefydliadau trydydd sector a ystyrir yn draddodiadol o dalu llai na'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae swydd Swyddog C&G ar gyfer prosiect LIFE a redir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd ar gyflog o £30,873 i £34,218 y flwyddyn. Mae hyn yn cymharu â £20,092 i £21,748 gan APCE (a gwnaed hyn ar ôl ymdrechu i uwchraddio'r rôl i Radd 5 o Radd 4 yng ngwanwyn 2020). Hyd yn oed gyda'r cynnig a gyflwynwyd, mi fyddai hyn ond yn cymryd y swydd C&G dan sylw i £22,627 y flwyddyn ar frig y radd, sydd dal i fod tua £7.5k yn llai na phwynt cynydd isaf y rôl C&G gyda CNC. Yn yr un modd, mae'r rôl Rheolwyr Prosiect gyda Phrosiect LIFE CNC hefyd yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd, ar £38,922 - £43,649 y flwyddyn (o'i gymharu â £33,782 - £35,745 y flwyddyn yn APCE), ac mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y person hwnnw o fewn APCE yn rheolwr llinell ar fwy na rhai Penaethiaid Adran a / neu yn rheoli cyllidebau mwy na llawer o adrannau. Hysbysebwyd yn ddiweddar (haf 2021) swyddi C&G eraill gyda Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ar gyflog o £26k y flwyddyn, a hysbysebir swydd gyfredol ar gyfer Swyddog C&G gyda Menter Môn ar hyn o bryd ar gyflog o £24k y flwyddyn. Bu sawl enghraifft debyg dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

Mae'r cynnig a gyflwynwyd yn teimlo fel 'arwydd symbolaidd', ac nid yw'n mynd i'r afael â'r mater craidd yma, bod staff (neu rai swyddi) yn cael eu tanbrisio am y gwaith a wnânt. Yn ogystal, mae'r llwythi gwaith a roddir ar y staff hynny bellach yn fwy nag erioed, wrth iddynt barhau i gyflawni gwaith o ansawdd uchel ar ran yr Awdurdod a'i bartneriaid. Os yw'r Awdurdod o ddifri ynglŷn â recriwtio a chadw staff o safon yn y tymor hir, a gofalu am eu hadnodd pwysicaf - y bobl sy'n gweithio iddo - yna mae angen mynd i'r afael â'r mater o raddio swyddi'n gywir a dyfarnu staff yn unol â hynny. Mae'r Awdurdod yn gyfyngedig o ran yr hyn y gall ei gynnig mewn meysydd eraill megis dilyniant gyrfa, ac er y derbynnir yn gyffredinol bod yr Awdurdod yn gyflogwr da ar y cyfan, ni all ddibynnu ar hyn ar ei ben ei hun os yw o ddifri ynghylch mynd i'r afael â chadw staff yn y hir-dymor, a gwobrwyo staff yn unol â hynny. Fel arall, bydd moral staff am barhau i ddirywio o fewn yr Awdurdod yn y hir dymor, a ni fydd y broblem o cadw a recriwtio staff yn cael ei ddatrys.

Er gwybodaeth - mae'r anghysondeb sydd yn bodoli yn eithaf clir o fewn rhai adrannau, ac mae hyn yn gallu arwain at drwg deimlad a lletchwithdod ymysg staff, gan leihau moral. Tra fod materion o'r fath yn cael eu codi o fewn y broses blynyddol o arfanu swyddi, yn llawer rhy aml mae'r mater yn cael ei wrthod / anwybyddu, sydd yn arwain at hyn yn oed fwy o ddrwg deimlad ac yn neud 'joc' o'r holl broses arfarnu swyddi.

"While I welcome the suggested salary increase, I do not believe that what the Authority proposes in this consultation is adequate. The proposal put forward does not address the core issue that some jobs within the Authority are undervalued, and therefore score lower than they should be, leading to lower grades and salaries. Even in relation to those graded correctly, there are plenty of examples out there of equivalent positions within other organisations operating in the same field of work in Wales, but paying much more, including traditionally regarded third sector charities / organisations that pay less than the public sector, for example, the post of C&G Officer for the LIFE project run by Natural Resources Wales is currently being advertised at a salary of £30,873 to £34,218 per year. This in comparison with SNPA £20,092 to £21,748 from SNPA (and this was done after attempting to upgrade the role to Grade 5 from Grade 4 in the spring 2020). Even with the proposal put forward, this would only take the C&G post in question to the top of the grade at £22,627 a year, which is still about £7.5k less than the minimum increment point of the C&G role with NRW. Similarly, the Project Managers role with NRW's LIFE Project is also currently advertised at £38,922 - £43,649 per annum (compared to £33,782 - £35,745 per annum in SNPA), and this is despite the fact that within SNPA that person manages more than some Heads of Departments and / or manages larger budgets than many departments. Other C&G posts with the North Wales Wildlife Trust have recently been advertised (summer 2021) at a salary of £26k per annum, and a current post of C&G Officer with Menter Môn is currently advertised at a salary of £24k per annum. There have been many similar examples over the past few months.

The proposal put forward feels like a 'symbolic gesture', and does not address the basic issue, that staff (or some jobs) are undervalued for the work they do. In addition, the workloads placed on those staff are now greater than ever, as they continue to deliver high quality work on behalf of the Authority and its partners. If the Authority is serious about recruiting and retaining high quality staff in the long term, and looking after their most important resource - the people who work for it - then the issue of job grading needs to be addressed correctly and staff awarded accordingly. The Authority is limited in what it can offer in other areas such as career progression, and whilst it is generally accepted that the Authority is a good employer, it cannot rely on this alone if it is serious about tackling long-term staff retention, and rewarding staff accordingly. Otherwise, staff morale will continue to decline within the Authority in the long term, and the problem of retention and recruitment will not be resolved.

For your information - the inconsistency that exists within some departments is quite clear, which can lead to bad feeling and awkwardness among staff, thus reducing morale. While such issues are raised within the annual job evaluation process, far too often the issue is rejected / ignored, which results in even more bad feeling and makes a 'mockery' of the whole job evaluation process.

Yr addasiad i'w gefnogi o ran denu a chadw staff o safon

Adjustment supported for attracting and keeping staff of standard

Credaf fod hwn yn fesur cychwyn da i fynd i'r afael â'n mesurau recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, credaf fod angen adolygu'r holl strwythur staffio. Mae Covid wedi ei gwneud yn glir bod gennym fylchau yn ein personél o ran gallu i wneud gwaith nawr ac yn y dyfodol. Mae'r pwysau ar staff presennol mewn rhai adrannau yn anghynaladwy a bydd yn effeithio ar allu'r awdurdod i gadw staff ar ôl eu recriwtio. Mae angen i ni hefyd roi cynllun olyniaeth ar waith ar gyfer rolau allweddol, mae gennym nifer o aelodau staff hirsefydlog sydd â blynyddoedd lawer o brofiad yn eu maes a fydd, yn y degawd nesaf, yn ymddeol, mae angen cynllun yn ei le i sicrhau na fydd eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u maes yn cael eu colli gan yr awdurdod pan fyddant yn gadael.

I believe that this is a good starting measure to address our staff recruitment and retention measures. However I do believe that there is a need to review the whole staffing structure. Covid has made clear that we have gaps in our personnel in terms of capacity to carry out work now and in the future. The pressure on existing staff in some departments is unsustainable and will affect the authorities ability to retain staff once recruited. We also need to put in place a

succession plan for key roles, we have a number of long standing staff members who have many years of experience in their field who will in the next decade, be retiring, there needs to be a plan in place to ensure that their knowledge and understanding of their field will not be lost to the authority when they leave.

Mae swyddi yng nghyrff eraill y Llywodraeth yn cael eu talu'n well

Jobs in other Government bodies are better paid

Nid yw bandiau cyflog presennol yn adlewyrchu maint ac amrywiaeth y gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud o gymharu â'n cymheiriaid eraill fel CNC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Current pay bands does not reflect the amount and variety of work we have to do in comparison to our other counterparts such as NRW and National Trust.

Rwy'n cefnogi hyn ond yn bersonol nid wyf yn meddwl ei fod yn ddigon o godiad cyflog. O edrych ar y prosiectau sy'n rhedeg o fewn y Parc, mae llawer o rolau'r 'Swyddog Prosiect' yn cael eu tangyflogi, gyda'r rôl SP ar gyfartaledd yn y DU yn £29,876. Mae mwyafrif y SP yn Reolwyr Prosiect mewn gwirionedd ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cyflog na disgrifiadau swydd. Nid wyf yn adnabod un gweithiwr nad yw'n mynd y tu hwnt i'w waith ac mae hyn yn golygu gorfod gweithio ymhell y tu allan i gylch gorchwyl y disgrifiadau swydd. Rydym yn gwneud hyn oherwydd ei fod o bwys gennym, ond mae'n golygu bod staff yn gweithio'n galed iawn, yn jyglo cyfrifoldebau ychwanegol ac nid ydynt yn cael eu gwobrwyo. Pethau eraill i’w hystyried yw pethau yr wyf yn gwerthfawrogi eu bod allan o reolaeth APCE ond rhaid eu hystyried gan eu bod yn effeithio’n fawr ar fywydau a llesiant staff a dyna gost byw yn y gogledd. Mae costau byw yn cynyddu swm anhygoel flwyddyn ar ôl blwyddyn. Y pris rhent cyfartalog ar gyfer tŷ bach 2 lofft yw rhwng £650-750 cyn unrhyw filiau. Rwy’n ddigon ffodus i beidio â byw ar fy mhen fy hun, pe bawn i’n sengl ni allwn fforddio gweithio i’r awdurdod. Mae prisiau tai ar gyfartaledd i’w prynu wedi codi yn ystod y 6 mis diwethaf i dros £300k, sydd wedi’i waethygu gan y pandemig ond hyd yn oed cyn y pandemig roedden nhw’n codi’n aruthrol. I staff sydd eisiau byw a gweithio yn yr ardal, mae'n dod yn anhyfyw. Er mwyn gweithio i'r Awdurdod mae'n rhaid i staff redeg cerbyd ac mae hyn ar ben costau cynyddol eraill, ac mae'n dod yn fwyfwy anodd. Dydw i ddim yn credu bod staff yn gadael yr Awdurdod am nad ydynt yn malio am y gwaith, rwy'n meddwl nad oes gan staff ddewis ond edrych yn rhywle arall sy'n drueni gwirioneddol.

I support this but personally I don't think it is enough of a pay rise. Looking at the projects running within the Park, many of the 'Project Officer' roles are under paid, with the average PO role in the UK being £29,876. The majority of PO's are actually Project Managers and this is not being reflected in their salary or job descriptions. I don't know a single employee who does not go above and beyond in their work and this means having to work way outside of the job descriptions remit. We do this because we care, but it means staff are working extra hard, juggling extra responsibilities and not being rewarded. Other things to consider are things that I appreciate are out of SNPA's control but they must be taken into account as they heavily impact on the lives and well-being of staff and that is the cost of living in north Wales. Living costs are increasing an incredible amount year on year. The average rental price for a small 2 bed house is between £650-750 before any bills. I am fortunate enough to not live alone, if I was single I simply could not afford to work for the authority. Average house purchase prices have risen in the last 6 months to over £300k, which has been made worse by the pandemic but even pre pandemic they were rising dramatically. For staff who want to live and work in the area, it is becoming unviable. To work for the Authority, staff have to run a vehicle and this added to other rising costs, it is becoming more and more of a struggle. I don't believe staff are leaving the Authority because they don't care about the work, I think staff have no choice but to look elsewhere which is an incredible shame.

| |
|---|
| Syniad ardderchog. Help mawr i ddatblygu, cadw ac ysgogi staff. Hefyd, gwneud yr awdurdod mwy deniadaol i bobol o du allan pan hysbysebir swydd. |
| Excellent suggestion. Great help to develop, keep and motivate staff. Also, making the authority more attractive to external people when advertising posts. |
| Baswn yn hoffi cael gwell esboniad am y newid yma. |
| I would welcome a better explanation for this change. |
| Balch iawn o weld hyn yn cael ei ystyried. Mae hi'n anodd iawn denu a chadw talent o fewn yr Awdurdod gan fod cyflogau'n is nag o fewn cyrff tebyg eraill o fewn y sector. |
| Very glad to see this being considered. It is very difficult to attract and keep talent in the Authority as salaries are lower that other similar bodies within the sector. |
| Rwy'n croesawu codiad cyflog ond teimlaf nad yw hyn yn ddigonol gyda rhai swyddi. Mae cyflogau swyddi cyffelyb o fewn mudiadau/cyrff eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd yn parhau i fod yn uwch hyd yn oed yn dilyn estyn dau bwynt meingefn. Gall hyn greu trafferth yn y dyfodol wrth geisio recriwtio staff newydd ac i gadw staff mewn swyddi presennol. Yn ariannol dyw staff ddim yn mynd i elwa lawer wrth estyn dau bwynt o ganlyniad i gostau byw uwch a chwyddiant. |
| I support a salary increase but feel that it is not enough regarding some posts. Salaries in comparable posts in other establishments/bodies such as Natural Resources Wales and Gwynedd Council continue to be higher even after extending the salary spine by two points. This could create difficulty in the future when trying to recruit new staff and to retain staff in current posts. Financially staff will not benefit a great deal by extending two points as a result of higher cost of living and inflation. |
| Er fy mod yn cefnogi'r cynnig i gynyddu cyflog staff drwy ymestyn pob band cyflog, fodd bynnag, mae gennyf bryderon y byddai canlyniad hyn yn dal i fod yn fater o gyflogau'r Awdurdod yn methu â bod yn gystadleuol â sefydliadau tebyg. |
| Whilst I support the proposal to increase staff salary by extending each pay band, however I do have concerns this would still result of the Authority's pay falling short of being competitive with similar organisations. |
| Cytuno gyda'r awgrym, mae wedi bod yn amlwg ers sawl blwyddyn nad ydy cyflogau yr Awdurdod yn gystadleuol. |
| Agree with the suggestion, it has been apparent for some years that the Authority salaries were not competitive. |
| Cytuno, er mwyn cael cydraddoldeb gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru |
| Agree, for equality with other public bodies in North Wales |
| Mae yn bwysig o ran cadw a recriwtio staff fod cyflogau yn gymharol i Awdurdodau a chynghorau eraill. |
| It is important for retention and recruitment of staff that salaries are comparative with other Authorities and Councils. |

| |
|---|
| Tra bod y gobaith o godiad cyflog yn cael ei groesawu mewn egwyddor, mae'r cynnig a gyflwynwyd yn awgrymu y byddai rhywun ar raddfa is hy Graddfa 4 neu 5, yn derbyn codiad cyflog o rhwng £795 a £1,332 (yn ôl graddfeydd cyflog 2020 sydd ar agor ger fy mron). Fodd bynnag, byddai rhywun ar radd uwch h.y. Gradd 9 neu 10, yn disgwyl cynnydd o tua £2,000 neu fwy (£33,782 > £35,745, £35,745 > £37,890), yn sylweddol fwy... sef y cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach. Mae hyn yn annheg, yn enwedig gan fod llawer o'r rolau cyflog is yn cael eu llenwi gan fenywod ac yn talu llai na'r hyn y dylent yn barod.<br>Whilst in principle the prospect of a salary increase is welcomed, the proposal put forward suggests that someone on a lower grade i.e. Grade 4 or 5, would receive a pay increase of between £795 and £1,332 (according to the 2020 pay scales which I have open in front of me). However, someone on a higher grade i.e. Grade 9 or 10, would expect an increase of around £2,000 or more (£33,782 > £35,745, £35,745 > £37,890), significantly more... a case of the richer getting richer. This is unfair, particularly as many of the lower paid roles are filled by females and are paid less than what they should already. |
| Cefnogi'n llawn strwythur cyflog mwy cystadleuol.<br>Fully support a more competitive salary structure. |
| Hapus i'w dderbyn.<br>Happy to accept. |

| SYLWADAU STAFF: DYDD GŴYL DEWI | STAFF COMMENTS: ST. DAVID'S DAY |
|---|---|

| |
|---|
| Cynnig Ardderchog!<br>Excellent Suggestion ! |
| Er nid ar draul yr uchod. Mae'r staff bob amser yn gwerthfawrogi cydnabyddiaeth, ac roedd yn syndod pleserus y llynedd a werthfawrogir yn fawr gan bawb. Fodd bynnag, nid wyf yn gwybod os yw hyn yn beth parhaol neu a yw ddim ond ar gyfer 2022 - os y cyntaf (ac os bydd yn costio cryn dipyn i'r Awdurdod), y pwynt cyntaf sy'n cael blaenoriaeth.<br>Although not at the expense of the above. Staff always appreciate acknowledgement, and it was a pleasant surprise last year which was much appreciated by everyone. However, I don't know if this is a permanent thing or just for 2022 - if the former (and if it will cost the Authority quite a bit), the first point takes precedence. |
| Credaf fod yr Awdurod eisoes yn cynnig pecyn gwyliau blynyddol teg iawn, ond yn amlwg nid oes unrhyw un call am wrthod y cynnig o diwrnod ychwanegol o wyliau â thâl, felly rwy'n gefnogol o hyn.<br>I believe the Authority aready offers a very fair annual leave package, but obviously no one in their right mind would refuse the offer of an additional day off with pay, therefore I support this. |

| |
|---|
| Cefnogi, cyn belled â bod y budd yn ymestyn i'n haelodau staff rheng flaen sydd fel arfer yn gweithio Gwyliau Banc – staff Plas Tan y Bwlch, Yr Ysgwrn, Canolfannau Croeso, Meysydd Parcio a gwasanaeth Wardeiniaid ac ati.<br><br>Support as long as the benefit extends to our frontline staff members who usually work Bank Holidays - staff at Plas Tan y Bwlch, Yr Ysgwrn, Visitor Centres, Car Parks and Wardens service etc. |
| Yr wyf yn cefnogi hyn ac yn credu y dylai fod yn wyliau Cenedlaethol. Hoffwn ddiolch i APCE am symud ymlaen i ffurfioli hyn fel diwrnod disgresiwn ychwanegol o wyliau blynyddol.<br><br>I support this and believe it should be a National holiday. I would like to thanks APCE for taking steps to formalise this as an additional discretionary day's annual leave. |
| Syniad da. Pam ddim, dathlu Dydd Gwyl Dewi.<br>Good idea, why not celebrate St. David's Day |
| Yn fy marn i mae'r Awdurdod yn gyflogwr da sy'n ystyried lles staff ac mae ychwanegu'r diwrnod hwn yn ategu hynny.<br><br>In my opinion, the Authority is a good employer who considers staff welfare this additional day supports this. |
| Cytuno 100%. Dylai ei fod yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol beth bynnag<br>Support 100%. However, It should be done on a national level |
| Syniad da, mae'r Alban ac Iwerddon yn dathlu eu seintiau nhw. Dylai Cymru ddilyn yr un drefn.<br>Good idea, Scotland and Ireland celebrate their saints. Wales should do the same. |
| Rwy'n llwyr gefnogi dathlu dydd Gŵyl Dewi a'i nodi fel Gŵyl y Banc, mae cyrff cyhoeddus yn cymryd yr awenau yn caniatáu hwn fel diwrnod o wyliau blynyddol yn ôl disgresiwn yn ddechreuad da.<br><br>I am in full support of celebrating St David's Day and marking it as a Bank Holiday, public bodies taking the lead and allowing this as a discretionary day annual leave is a good start. |
| Cytuno gyda'r bwriad.<br>Agree with the proposal. |
| Gan fod y disgrifiad y cynnig yma yn nodi mai diwrnod 'ychwanegol' yw hwn, rwyf yn cymryd yn ganiataol bydd hyn ar ben diwrnodau mantais presennol, ac nid tynnu diwrnod mantais o rhywle arall i alluogi hyn. Os felly, rwyf yn gefnogol.<br><br>As the description of this proposal states that this is an 'extra' day, I assume this will be on top of existing advantage days, and not take advantage day from elsewhere to enable this. If so, I am supportive. |
| Mae Cyngor Môn eisoes yn caniatáu diwrnod ychwanegol o wyliau a deallaf fod Cyngor Gwynedd yn ystyried y mater.<br><br>Anglesey Council already permit an additional day of leave and I understand Gwynedd Council is considering the issue. |

| |
|---|
| Yn cefnogi'n llawn diwrnod o wyliau i anrhydeddu ein Nawddsant.<br>Fully support a day's leave in honour of our patron Saint. |
| Hapus i'w dderbyn.<br>Happy to support. |

| SYLWADAU STAFF: DWYIEITHRWYDD | STAFF COMMENTS: BILINGUALISM |
|---|---|

| |
|---|
| Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig darparu gwasanaeth yn y ddwy iaith fel bod cwmpas y Parc yn ymestyn ymhellach i ffwrdd, y Gymraeg yw'r brif iaith yn ein cymuned a dylai'r holl randdeiliaid gael y cyfle i dderbyn y gwasanaeth a ddarperir gan y parc yn yr iaith ofynnol. |
| I think it is important to provide a service in both languages so that the scope of the Park reaches further afield, Welsh in the predominant language in our community and all stakeholders should have the opportunity to receive the service provided by the park in the language required. |
| "Mae cefnogaeth yr Awdurdod i ddysgwyr/y rhai sy'n gloywi eu Cymraeg yn creu argraff dda a dylid llongyfarch hynny. Fodd bynnag, mae'n siomedig gweld bod cyn lleied o weithwyr presennol yn cefnogi siaradwyr / dysgwyr Cymraeg ail iaith yn y gweithle. Yn rhy aml o lawer mae staff sy'n siarad Cymraeg yn troi i siarad Saesneg fel norm o fewn y gweithle, mae hyn yn arbennig o wir am aelodau iau o staff sy'n siarad Cymraeg, er gwaethaf anogaeth i'r gwrthwyneb. Dwi'n teimlo bod yr arweinwyr a'r cyfarwyddwyr yn gwbl anymwybodol o hyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau o weithio o bell.<br>Er fy mod yn cefnogi'r cynigion newydd, credaf fod angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â'r materion uchod hefyd." |
| "The support of Welsh learners / improvers by the Authority is impressive and should be congratulated. However, It is disappointing to see that so few current employees support second language Welsh speakers / learners in the workplace. All too often Welsh speaking staff turn to speak English as a norm within the workplace, this is especially true of younger Welsh speaking staff members, regardless of encouragement to the contrary. This is something that the department leads and directors i feel are completely unaware of, especially so during periods of remote working.<br>Whilst i support the new proposals, i think the Authority needs to tackle the issues above also." |
| Onid ydym i fod i gael gweithlu cwbl ddwyieithog ers degawdau....? Os ydi APCE yn awdurdod sydd ag uchelgais i ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf, pam ddim anelu at safon arfaethedig o 5+ yn y ddwy iaith ar draws y gweithlu?<br><br>Aren't we supposed to have achieved a fully bilingual workforce for decades ....? If SNPA is an authority with ambitions to provide the highest quality services, why not aim for a proposed standard of 5+ in both languages across the workforce? |

| |
|---|
| Mae'r Gymraeg yn rhan hynod bwysig o'r gymuned a'r diwylliant yma, ac yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu â llawer o'n tirfeddianwyr. Fel dysgwr rwyf wedi cael yr awdurdod yn hynod gefnogol, o ran caniatáu i mi ddatblygu fy Nghymraeg ar gyrsiau ac o ran darparu awyrgylch calonogol a chyfeillgar i ddefnyddio fy Nghymraeg. Rwy'n teimlo'n gyfforddus ar Lefel 3 nawr ac yn gobeithio parhau i wella. Fodd bynnag, gall wneud recriwtio'n anoddach, felly cytunaf i'w gadw ar Lefel 2/3 o leiaf, gan ei gwneud yn gliriach efallai fod croeso i ddysgwyr os ydynt yn hapus i barhau i ddysgu (dwi'n gwybod am sawl dysgwr da sydd wedi cael eu digalonni cyn iddynt hyd yn oed ystyried gwneud cais i'r Awdurdod). Mae cefnogi dysgwyr yn ffordd dda arall o helpu i gefnogi'r iaith, yn enwedig gan fod llawer o ddysgwyr yn frwdfrydig iawn yn ei chylch! Nid yw'r Gymraeg yn hawdd i'w dysgu a gallech golli allan ar ymgeiswyr da, neu hyd yn oed golli staff, os yw'r hyfedredd Cymraeg gofynnol yn rhy uchel, yn enwedig os oes anfanteision ariannol. Mae Lefel 2/3 yn gyfaddawd da – gallwch chi fynd â dysgwr i'r lefel honno (a thu hwnt) yn hawdd trwy'r anogaeth a'r gefnogaeth ragorol rydych chi'n eu darparu ar hyn o bryd. |
| Welsh is an incredibly important part of the community and culture here, and essential for communicating with many of our landowners. As a learner I've found the authority extremely supportive, both in allowing me to develop my Welsh on courses and in providing an encouraging and friendly atmosphere in which to use my Welsh. I feel comfortable at Level 3 now and hope to continue improving. However, it can make recruitment more difficult, so I agree to keeping it at Level 2/3 as a minimum, perhaps making it clearer that learners are welcome if they're happy to continue learning (I know of several good learners that have been put off before they even considered applying to the Authority). Supporting learners is another good way to help support the language, especially as many learners are very enthusiastic about it! Welsh is not easy to learn and you could end up missing out on good candidates, or even losing staff, if the required Welsh proficiency is set too high, especially if there are financial disadvantages involved. Level 2/3 is a good compromise - you can easily take a learner to that level (and beyond) through the excellent encouragement and support you currently provide. |
| "Roeddwn o dan yr argraff bod rhaid i staff APCE allu'r Gymraeg yn ogystal a'r Saesneg beth bynnag. Wrth son am hyn - Pam nad oes modd llenwi'r ffurflen hon yn Gymraeg? " |
| "I was under the impression that SNPA staff must be able to speak Welsh as well as English anyway. Come to mention it - Why can't this form be completed in Welsh? " |
| Gall hyn fod yn 'ddelfryd'. Fodd bynnag, ni all hyn fod yn wahaniaethol nac yn tueddu i arwain at recriwtio'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer unrhyw rôl benodol. |
| This may be \`an ideal\`. However, This is cannot be discriminatory or tending to lead to recruitment of those not qualified for any given role. |
| Rwy'n gefnogol mewn egwyddor o'r syniad hwn. Ers peth amser, rwyf wedi teimlo bod y gofynion uchel yn y Gymraeg sydd gan yr Awdurdod, er fy mod yn eu canmol, wedi golygu bod ymgeiswyr addawol iawn wedi cael eu digalonni rhag ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod, neu yn cael eu gwrthod yn y cam didoli oherwydd eu diffyg sgiliau Cymraeg. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at anhawster wrth recriwtio staff mewn rhai achosion, neu arwain at benodi ymgeiswyr annigonol. |
| I support this idea in principle. For some time, I have felt that the high Welsh language requirements of the Authority, although I commend it, have meant that very promising applicants have been discouraged from applying for, or being rejected for, posts with the Authority in the sorting phase due to their lack of Welsh language skills. This, in turn, has led to difficulty in recruiting staff in some cases, or leading to insufficient candidates being appointed. |

| |
|---|
| Credaf fod mabwysiadu'r Safonau Iaith Cenedlaethol gan yr Awdurdod rai blynyddoedd yn ôl, lle gallai swyddi gael eu sgorio'n unigol mewn perthynas â'u gofynion Cymraeg, wedi fynd i'r afael â hyn i ryw raddau h.y. caniataodd inni symud oddi wrth ddatganiadau generig o 'Gymraeg hanfodol' mewn swydd disgrifiadau, a rhoddodd syniad i ymgeiswyr o'r disgwyliadau yn y Gymraeg cyn ceisio am swyddi. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, credaf fod gofynion y Gymraeg yn dal i fod, o bosib, yn uwch nag sydd ei angen ar gyfer rhai swyddi, a hynny yn ôl pob tebyg oherwydd fod gan yr Awdurdod ddiwylliant Cymraeg mor gryf (rhywbeth yr wyf yn gwbl gefnogol ohono). |
| I believe that the adoption of the National Language Standards by the Authority some years ago, where posts could be scored individually in relation to their Welsh language requirements, has addressed this to some extent. i.e. it allowed us to move away from generic statements of 'Welsh essential' in a job description, and gave applicants an idea of the expectations in Welsh before applying for jobs. However, in some cases, I believe that the Welsh language requirements may still be higher than is required for some posts, probably because the Authority has such a strong Welsh culture (something I am totally supportive of). |
| Credaf, trwy osod gofyniad Cymraeg cymharol gymedrol ar draws yr Awdurdod, ond gan gadw'r gallu i addasu hyn yn ôl swyddi a rolau unigol, y byddwn yn cydnabod ein bod yn byw mewn gwlad lle mai dim ond tua 20% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn rhugl . Heb os, bydd gan y rhai nad ydyn nhw'n rhugl, neu sydd angen cefnogaeth i wella eu sgiliau Cymraeg, sgiliau a phrofiad gwerth chweil eraill i'w cynnig, ac ni ddylid di-ystyried eu dealltwriaeth na'u hangerdd dros Eryri / ardal ehangach gogledd Cymru oherwydd nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg / yn Gymraeg iaith gyntaf. Yn ei dro, dylai hyn ganiatáu i fwy o bobl geisio am swyddi gyda'r Awdurdod, ond rhaid i hyn fod gyda'r ddealltwriaeth os cânt eu penodi, eu bod yn ymuno â gweithlu le mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac y bydd gofyniad gwirioneddol arnynt i gyrraedd targedau penodol o gwella eu sgiliau iaith Gymraeg, ac i gyfrannu yn y Gymraeg yn y gweithle. Bydd angen dyletswydd ar yr holl staff, yn enwedig Rheolwyr Llinell a Phenaethiaid Adrannau, i helpu i hwyluso a chefnogi unigolion. Felly, rwy'n cefnogi'r syniad bod codiadau cyflog yn cael eu wneud yn seiliedig ar dargedau penodol yn cael eu cyrraedd - yn rhy aml o lawer rydym yn clywed am bobl yn cael eu penodi i swyddi o fewn sefydliadau gyda'r ddealltwriaeth y byddant yn dysgu Cymraeg, ond unwaith maent yn y swydd ni chaiff hynny ei weithredu (boed hyn yn cael ei wneud trwy'r broses arfarnu swyddi gyfredol sy'n bodoli ar hyn o bryd - a gadewch i ni fod yn onest, sydd yn wastraff amser llwyr fel y mae o - neu trwy fecanwaith gwerthuso newydd, mae hynny fyny i'r Awdurdod benderfynu). |
| I believe that by imposing a relatively modest Welsh language requirement across the Authority, but retaining the ability to adapt this to individual jobs and roles, we will recognise that we live in a country where only about 20% of the population are fluent Welsh speakers. Those who are not fluent, or need support to improve their Welsh language skills, will undoubtedly have other worthwhile skills and experience to offer, and their understanding and passion for Snowdonia / the wider north Wales area because they are not fluent in Welsh / Welsh first language should not be overlooked. In turn, this should allow more people to apply for jobs with the Authority, but this must be with the understanding that if they are appointed, they join a workforce where the Welsh language thrives, and there is a real requirement for them to meet specific targets of improving their Welsh language skills, and to contribute in Welsh in the workplace. All staff, especially Line Managers and Heads of Departments, should have a duty to help facilitate and support individuals. Therefore, I support the idea that pay rises are made based on specific targets being met - all too often we hear of people being appointed to positions within organisations with the understanding that they will learn Welsh, but once in post it is not be implemented (whether this is done through the current job evaluation process that currently exists - and let's be honest, which is a total waste of time in it's current form - or through a new evaluation mechanism, - and that is up to the Authority to decide). |

| |
|---|
| Cefnogi mewn egwyddor. Yn hanesyddol rydym wedi cael diwylliant Cymraeg cryf ymhlith staff. Wrth recriwtio rhaid cofio y byddai gan ddysgwyr fantais aruthrol o ymuno â gweithlu o'r fath, ond yn y gorffennol nid ydynt wedi eu penodi i rolau gan nad yw eu safon iaith bresennol yn ddigon cryf. |
| Support in principle. Historically we have had a strong Welsh Language culture amongst staff. Upon recruiting we must bear in mind that learners would have a huge benefit in joining a workforce such as this, however in the past they have not been appointed to roles as their current language standard isn't strong enough. |
| Mae cadw'r Gymraeg yn fyw a'i hyrwyddo yn hollbwysig i Ogledd Cymru. Ac os gall y parc wneud hyn drwy wneud ei holl staff yn ddwyieithog, mae hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir. |
| Keeping the welsh language alive and promoting it is vital for North Wales. And if the park can do this by making all of its staff bilingual, this is a step in the right direction. |
| Rwyf bob amser wedi gwerthfawrogi'r gefnogaeth i gael gweithlu cwbl ddwyieithog. |
| I have always appreciated the support for a fully bilingual workforce. |
| Byddai angen sicrhau bod pwyslais a chefnogaeth gyfartal ar gyrraedd safonau ar gyfer y ddwy iaith. |
| Would need to ensure that there is an equal emphasis and support on achieving standards for both languages. |
| Cefnogi, ond bydd rhai aelodau o staff angen mwy o gefnogaeth nag eraill, yn enwedig os oes gofyn arnynt i drafod/ egluro elfennau mwy technegol yn y Gymraeg, ar lafar neu yn ysgifenedig |
| Support, but some staff will need more support than others, especially if they are required to discuss / explain more technical elements in Welsh, orally or in writing |
| Cefnogi mewn egwyddor. Pryder 'sgen ai fod y pobol gorau ddim yn angenrheidiol yn mynd i gael eu penodi i unrhyw swydd, os oes ymgeisydd ddim yn siared Cymraeg. Ymgeisydd gorau yn seiliedig ar eu profiad a'u cymwysterau yn y maes dylai fod y maen prawf pwysicaf, nid eu gallu i siared Cymraeg dros phopeth arall. Gall yr awdurdod helpu iddynt ddysgu Cymraeg, nes ymlaen. |
| Support in principle. Concern over whether the best people are not necessarily going to be appointed to any given post, if a candidate does not speak Welsh. Being the best candidate based on their experience and qualifications in the field should be the most important criterion, not their ability to speak Welsh above all else. The authority can help them learn Welsh later. |
| Angen gallu siarad a gyrru ebost yn gymraeg. |
| Need to be able to speak and send email in Welsh. |
| Croesawu hyn yn fawr - rhwystredig methu rhoi pwyntiau ychwanegol am fedru'r Gymraeg pan yn sgorio swydd ddisgrifiadau gan fod medru'r iaith yn sgil hanfodol o fewn yr Awdurdod, yn fy marn i. |
| This is very welcome - it is a shame to not be able to give extra points for being able to speak Welsh when scoring job descriptions as I think the ability to speak Welsh is an essential skill within the Authority. |

| |
|---|
| Pwysig mewn ardal sydd yn fwyafrif siaradwyr Cymraeg bod pob cyflogwr hybu a chefnogi yr iaith. A hyn yn bwysicach fyth i gorff cyhoeddus fel y Parc i fedru arwain y ffordd yn hyn o beth, felly llwyr gytuno efo'r cynnig yma |
| It is important in a predominantly Welsh speaking area that all employers promote and support the language. And this is even more important for a public body like the Park to be able to lead the way in this regard, so I fully agree with this proposal |
| Dylid rhoi pob cymorth i staff ddysgu Cymraeg, fodd bynnag ni ddylai hyn gyfyngu ar y gronfa doniau ar gyfer recriwtio ar gyfer swyddi lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol - ar yr amod bod ymrwymiad diriaethol i ddysgu unwaith yn y swydd. |
| Every support should be given to staff to learn Welsh, however this should not limit talent pool for recruitment for jobs where Welsh isn't essential - providing there is a tangible commitment to learn once in post. |
| Cytuno ar yr angen i wella a datblygu sgiliau yn y ddwy iaith ar draws yr Awdurdod, gyda blaenoriaeth ar wella y Gymraeg |
| Cytuno ar yr angen i wella sgiliau datblygu sgiliau yn y ddwy iaith, gyda blaenoriaeth ar y Gymraeg |
| "Rwyf yn cefnogi y bwriad / egwyddor ond dim y lleiafswm sydd wedi cael ein nodi ar y fframwaith o rhan sgiliau. Mae'r rhain yn edrych yn llawer rhy isel. Os rydym angen cynnal ein statws fel awdurdod hollol dwyieithog, mae angen staff gyda lefel sgiliau ardderchog i gyrraedd y gofynion ac i gynnal safon derbyniol. |
| "I support the intention / principle but not the minimum that has been identified on the skills framework. These seem to be far too low. If we need to maintain our status as a fully bilingual authority, we need staff with excellent skill level to meet requirements and maintain an acceptable standard. |
| Mae angen hefyd sylweddoli bod yna cryn dipyn o wahaniaeth rhwng gwahanol swyddi ar wahanol lefelau o fewn yr Awdurdod e.e. efallai nad yw swydd fel Goruwchwylydd Meysydd Parcio neu Gogydd ym Mhlas Tan y Bwlch angen sgiliau ysgrifenedig ar lefel 4/5 mewn Cymraeg a Saesneg, ond mae swyddi megis Penaethiaid Gwasanaeth a swyddi proffesiynol yn sicr yn. Dylai lleiafswm sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y 4 maes (gwrando, siarad, darllen, ysgrifennu) cael ei gosod fesul swydd, ac os yw'r sawl sydd yn cael eu penodi ddim yn cyrraedd y gofynion hynny ar ôl cyrraedd yr hicyn cyflog olaf, ni ellir rhoi'r hicyn iddynt. |
| It also needs to be realised that there is quite a difference between different jobs at different levels within the Authority e.g. a job as a Car Park Supervisor or Cook at Plas Tan y Bwlch may not require written skills at level 4/5 in Welsh and English, but jobs such as Heads of Service and professional jobs certainly do. Minimum skills in Welsh and English in the 4 areas (listening, speaking, reading, writing) should be set on a job-by-post basis, and if the appointee does not meet those requirements when they get to the last pay increment, they cannot be given the increment. |

| |
|---|
| Mae'r ffordd yma i weld yn llawer tecach i mi na gosod lleiafswm isel iawn sydd gyda'r perygl o ostwng y safon ieithyddol ar draws yr Awdurdod yn sylweddol. Dwi'n llwyr sylweddoli ein bod yn cael trafferthion i recriwtio ar adegau, ond nid yw hyn yn rheswm i ostwng safonau. |
| This way seems much fairer to me than setting a very low minimum which has the effect of significantly reducing the language standard across the Authority. I fully appreciate that we sometimes have difficulty recruiting, but this is no reason to drive down standards. |
| Er bod mwyafrif o'r staff yn gallu cyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg i safon dda, mae angen cydnabod bod rhai staff yn gweithredu'n ddyddiol yn llawn yn y ddwy iaith yn ysgrifenedig. Mae'r amser sydd ei angen i gynhyrchu dogfennau dwyieithog llawn gan aelod o staff angen cydnabyddiaeth, gan fod y baich amser llawer mwy ar y bobl yma nag ar staff sydd yn dibynnu yn llwyr ar y gwasanaeth cyfieithu. |
| Although the majority of staff are able to communicate verbally in Welsh to a good standard, it needs to be acknowledged that some staff operate fully daily in both languages in writing. The time needed to produce full bilingual documents by a member of staff requires recognition, as the burden of time is much greater on these people than on staff who rely solely on the translation service. |
| Cytuno, er credaf dylai mwy gael ei wneud i berswadio staff presennol sydd ddim yn cyfathrebu yn Gymraeg i wneud hynny, fel nad oes angen cyfarfodydd mewnol Saesneg. |
| Agree, although I think more should be done to persuade existing staff who do not communicate in Welsh to do so, so that internal English meetings are not required. |
| Mae yn hanfodol fod yr Awdurdod ar y blaen ar y mater yma lle mae canran uchel o boblogaeth y Parc yn siarad Cymraeg. Mae rhaid i'r Awdurdod ddangos yn glir ei ymroddiad i'r Gymraeg fel rhan bwysig o darged y llywodraeth i gael miliwn o bobol i siarad Cymraeg. |
| It is essential that the Authority takes the lead on this issue where a high percentage of the Park's population speaks Welsh. The Authority must clearly demonstrate its commitment to the Welsh language as an important part of the government's target of getting one million Welsh speakers. |
| Siomedig nad oes cydnabyddiaeth yn hyn o'r sgiliau ieithyddol Cymraeg mae aelodau staff cyfredol wedi bod yn eu defnyddio er budd yr awdurdod ers blynyddoedd |
| Disappointed that there seems to be no recognition in this of the Welsh language skills that existing staff have been using to the Authority's benefit for years. |

| **SYLWADAU UNDEB GMB:** | **GMB UNION COMMENTS:** |
|---|---|

Mewn ymateb cynigiaf sylwadau i'w hystyried yn y broses ymgynghori:

1) Addasiad i'r meingefn cyflog – croesewir unrhyw gynnydd yng nghyflogau staff. Gofynnaf a ellir ystyried adolygiad o effaith cydraddoldeb yn unol â'r cynnig. Mewn geiriau eraill, onid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith o ran cyflog merched a dynion yn y sefydliad neu a yw'n effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

2) Dydd Gŵyl Dewi – fel sefydliad sy'n gweithredu yng nghalon Cymru mae'n briodol cydnabod y diwrnod yn y fath fodd.

3) Gofynion Sgiliau Iaith - mae'r cynnig yn cael ei ddeall ac yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad.

In response I offer comments for consideration in the consultation process :

1) Pay spine adjustment – any increases in the pay of staff are welcomed. I ask if a review of the impact of equality can be considered in line with the proposal. In other words , does the proposal have no affect in terms of the pay of women and men in the organisation or does it positively or negatively impact upon the gender pay gap?

2) St David's Day – as an organisation operating in the heart of Wales it is appropriate to recognise the day in such a way.

3) Language Skill Requirements – the proposal is understood and in keeping with the needs of the organisation.

Ionawr ~ January, 2022

**EITEM RHIF 14**

## ADRODDIAD GWEITHGOR AELODAU A GYNHALIWYD AR Y 1af O RAGFYR 2021

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes (Cadeirydd), Judith Humphreys, Edgar Owen, Elfed Roberts, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams;

**Aelod wedi'i benodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Y Cynghorydd Wyn Ellis Jones;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Mrs. Sarah Hattle, Mr Tim Jones, Mr Owain Wyn;

**Swyddogion**
Emyr Williams, G. Iwan Jones, Jonathan Cawley, Dafydd Edwards, Anwen Gaffey;

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorwyr Philip Capper, Ifor Glyn Lloyd, Mike Stevens; Ms Tracey Evans.

1. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn ddarostyngedig i Reoliadau Covid-19 ar sut mae'r Awdurdod yn cynnal ei fusnes, megis: -
   - nid oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.
   - roedd y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.

2. **Datgan Budd**
   Cyhoeddodd Mr Rob Lewis ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda a gadawodd y cyfarfod wrth i'r mater gael ei drafod. Cyhoeddodd Mrs. Anwen Gaffey a Ms Catrin Williams ddiddordeb yn Eitem 4 ar yr Agenda ond fe wnaethant aros yn y cyfarfod.

3. **Cofnodion**
   Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.

4. **Lefelau Cyflog APCE**
   Cyflwynwyd – Adroddiad i'r Aelodau drafod a rhoi arweiniad i'r Prif Weithredwr baratoi adroddiad gydag argymhellion i'r Awdurdod.

   Adroddwyd - Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a chefndir a dywedodd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ar 8 Rhagfyr 2021. Yn dilyn arweiniad gan Aelodau heddiw, byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno eu hargymhellion ar lafar yn y cyfarfod.

   Dywedodd y Prif Weithredwr, yn dilyn ei adroddiad i'r Gweithgor ar 20 Hydref, yr amcangyfrifwyd bellach y byddai addasu dau bwynt cyflog ar draws colofn gyflog yr Awdurdod mewn gwirionedd yn costio ychydig dros £200k ac nid £156K fel y dywedwyd yn flaenorol. Mae’r ffigur hwn yn cynnwys y cyfraniadau pensiwn ychwanegol dilynol ac amcangyfrif o’r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2021 a 2022, nad ydynt wedi’u cytuno eto. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod y codiad cyflog yn dal i fod yn fforddiadwy, ac roedd arwyddion y gallai'r Awdurdod gael gafael ar arian cyfalaf i gwrdd â'r swm a oedd yn fwy na'r £100k sydd ar gael ar hyn o bryd yn y gyllideb sylfaenol.

Yn codi ar hynny, cytunodd yr Aelodau i ystyried pob paragraff yn unigol.

Paragraff 2 – Cydnabod Dwyieithrwydd:

- dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd/Mon, sy'n rhoi'r pwyslais ar greu gweithlu dwyieithog, wedi dylanwadu ar ei adroddiad.
- Er mwyn creu gweithlu cwbl ddwyieithog, cytunodd yr aelodau y dylai'r Awdurdod fabwysiadu safon gyffredin ar gyfer yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar draws pob swydd.
- eglurodd y Prif Weithredwr na fyddai swyddi newydd a recriwtiaid newydd yn gallu symud ymlaen i'r cynyddiad terfynol mewn band cyflog nes bod y safon iaith ofynnol wedi'i chyrraedd. Argymhellodd y dylai'r safon fod yn rhesymol ac yn gyraeddadwy er mwyn annog yr ystod eang o staff sy'n gweithio i'r Awdurdod i ddysgu'r iaith.
- Trafododd yr aelodau y lefel y dylid gosod y safon arni a'r rhesymau dros ac yn erbyn codi'r lefelau. Cytunwyd i argymell un safon gyffredin ar gyfer Cymraeg a Saesneg ar draws pob swydd fel yr amlinellir ym mharagraff 2.8 yr adroddiad. Yn codi ar hynny, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod yn darparu ystod o gyfleoedd i staff ddysgu a gwella eu sgiliau iaith
- codwyd rhai pryderon ynghylch gallu'r Awdurdod i recriwtio, a thrafodwyd opsiynau ar gyfer gweithio gyda cholegau lleol, darparu prentisiaethau ac ati.
- Argymhellodd yr aelodau y dylid adolygu'r penderfyniad ar ôl cyfnod o 3 i 4 blynedd i sefydlu a yw wedi cyflawni ei nod ac i fonitro ei lwyddiant.

Paragraff 3 – Contractau Parhaol

- Cytunodd yr aelodau ar yr egwyddor o gynnig contractau parhaol ar gyfer swyddi a sefydlwyd am gyfnod o ddwy flynedd neu fwy, gyda'r Tîm Rheoli yn cadw'r gallu i arfer eu disgresiwn ar gyfer achosion penodol.

Paragraff 4 - Dydd Gwyl Dewi

- Cytunodd yr aelodau i argymell y dylai'r Awdurdod sefydlu Dydd Gwyl Dewi fel gwyliau parhaol i staff. Nododd yr aelodau y bydd y weithdrefn arferol yn cael ei dilyn ar gyfer aelodau staff sydd fel arfer yn gweithio ar wyliau banc, ac ar gyfer staff nad ydynt yn gweithio patrwm arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhoddir diwrnod yn lle. Pan fydd Dydd Gŵyl Dewi yn syrthio ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, y diwrnod gwaith agosaf at 1 Mawrth fydd yn cael eu dewis. Nododd Aelod fod busnesau, fel yr FUW, eisoes yn caniatáu gwyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi ac y dylai'r Awdurdod holi ynghylch yr arferiad gorau gan y sefydliadau hyn.
- Cytunodd yr aelodau i ofyn i Gadeirydd yr Awdurdod ysgrifennu at Lywodraeth San Steffan yn gofyn am yr un hawliau ag a roddir eisoes i Ogledd Iwerddon a'r Alban, i ganiatáu i Lywodraeth Cymru ganiatáu gwyliau ar Ddydd Dewi. Os, a phryd, y gall Llywodraeth Cymru wneud Dydd Gwyl Dewi yn wyliau statudol yng Nghymru, yna bydd yn diystyru penderfyniad yr Awdurdod.
- awgrymodd Aelod y dylid hyrwyddo diwrnod ychwanegol y gwyliau fel rhan o becyn recriwtio'r Awdurdod ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

1. **nodi'r adroddiad.**
2. **cefnogi addasu dau bwynt cyflog ar draws asgwrn cefn cyflog yr Awdurdod.**
3. **argymell y dylai'r Awdurdod fabwysiadu un safon gyffredin ar gyfer yr iaith Gymraeg a Saesneg ar draws pob swydd, y lefel y dylid gosod y safon arni fel yr amlinellir ym mharagraff 2.8 yr adroddiad.**
4. **argymell y dylid eithrio'r cynyddiad terfynol mewn band cyflog hyd nes y bydd y safon iaith ofynnol wedi'i chyrraedd ar gyfer pob swydd newydd a recriwtiaid newydd.**

5. **argymell y gall y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli ddefnyddio eu disgresiwn mewn achosion penodol wrth ystyried yr opsiwn o gynnig contractau parhaol.**
6. **cefnogi gwyliau staff dewisol ar Ddydd Gwyl Dewi o 2022 ymlaen fel yr amlinellwyd.**
7. **aros am adroddiad pellach i'r Awdurdod i gymeradwyo amodau gwaith staff a fydd yn gofyn am ymgynghori â'r Undebau Llafur.**

5. **Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) 2022/23**
Derbyniwyd - Diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd - Nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu gwneud cyhoeddiad ffurfiol ar hyn o bryd ond roeddent yn hapus i'r Prif Weithredwr roi diweddariad llafar i'r Aelodau.
Yn dilyn cyfarfod diweddar gyda'r Gweinidog, llwyddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r anawsterau a achosir gan weinyddu prosiectau grant yn flynyddol, a'u bod bellach wedi cytuno i newid cyllid prosiectau grant TCLIC i raglen gyfalaf 3 blynedd. Roedd hyn werth £2.7 miliwn, wedi'i rannu'n gyfartal dros y 3 blynedd, a byddai'r Gweinidog yn darparu arweiniad pellach yn y llythyr cylch gwaith.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y pedwar maes lle mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Tirweddau Dynodedig yng Nghymru gyflawni dros y 3 blynedd nesaf gan ddisgwyl y bydd dros hanner yr arian yn cael ei wario ar y ddau bwynt bwled cyntaf: -

- Bioamrywiaeth ac Adfer Natur
- Dad-garboneiddio
- Cefnogi Cymunedau
- Ymateb i Effaith Twristiaeth

Amlinellodd y Prif Weithredwr ei gynigion ar gyfer cwrdd â'r gofynion hyn, er y nodwyd pryderon mewn perthynas ag amserlen Ebrill. Byddai'r Prif Weithredwr yn croesawu unrhyw sylwadau gan yr Aelodau a chadarnhaodd y byddai'n cyflwyno adroddiad manwl i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol yn gynnar yn 2022.

Yn codi ar hynny, gwnaeth yr Aelodau'r sylwadau a ganlyn: -
- Croesawodd yr aelodau y dull strategol 3 blynedd.
- mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Prif Weithredwr i ofyn a yw 'Cefnogi Cymunedau' yn cynnwys cymorth ar gyfer tai, gan fod y Gweinidog hefyd yn dal y portffolio tai. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr Awdurdod eisoes wedi nodi'r angen am fwy o adnoddau ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio ac y gallai cyllid i benodi Swyddog Cefnogi Tai fod ar gael pe bai hyn yn flaenoriaeth i'r Aelodau.
- cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr ymrwymiad 'Dad-garboneiddio' yn driphlyg ac yn cynnwys yr Awdurdod ei hun a sut mae'n gweithredu, gan alluogi ynni adnewyddadwy i gymunedau, a chipio carbon o fewn ffin y Parc Cenedlaethol.
- dywedodd y Prif Weithredwr, mewn ymateb i gais am gymorth i ffermwyr, fod angen canfod pa gymorth arall oedd ar gael iddynt cyn i'r Awdurdod ymyrryd. Cynghorodd ar yr egwyddor weithredu, sef peidio â darparu cyllid er budd masnachol, er bod y manylion yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac aros am adroddiad pellach yn 2022.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 14.00**